Qualified for the future
Cymwys ar gyfer y dyfodol

Cymwys ar gyfer y dyfodol:

Y dewis cywir i Gymru

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhan o'n gwaith ehangach Cymwys ar gyfer y dyfodol fydd yn help i lunio'r genhedlaeth nesaf o gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yng Nghymru.

Ionawr 2021

CYMWYSTERAU CYMRU
QUALIFICATIONS WALES

qualificationswales.org

Cynnwys

Rhagair	3
Trosolwg	4
Cefndir	6
Y camau nesaf	9
Sut y datblygwyd yr ymgynghoriad hwn	10
Asesu effaith posibl	10
Cynigion	12
1. Y Celfyddydau Mynegiannol	13
2. Iechyd a Lles	18
3. Y Dyniaethau	22
4. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	27
5. Mathemateg a Rhifedd	40
6. Gwyddoniaeth a Thechnoleg	45
7. Sgiliau Cyfannol	52
Cwestiynau asesu effaith	55

Rhagair

Rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau mawr i ddysgu ac asesu a achosir gan y pandemig Covid-19 parhaus, ac o'r pwysau a roddir ar ddysgwyr, eu teuluoedd a'u hathrawon. Ein prif flaenoriaeth yw gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hasesu mor deg â phosibl o dan yr amgylchiadau anodd hyn.

Fodd bynnag, er gwaethaf pwysau'r sefyllfa bresennol, ni allwn golli golwg ar nodau a chyfrifoldebau mwy hirdymor. Mae'r Mesur Cwricwlwm drafft yn gwneud ei ffordd trwy'r Senedd, ac rydym am barhau â'r drafodaeth bwysig am ei effaith ar gymwysterau. Trwy'r ymgynghoriad hwn, gobeithiwn roi gwell syniad i ddysgwyr ac ysgolion o sut y gallai'r prif gymwysterau yng Nghymru edrych, i'w helpu i feddwl am y dyfodol a pharatoi ar ei gyfer.

Ar y cam hwn, rydym eisiau clywed eich barn ar yr ystod o gymwysterau 'gwneud-i-Gymru' a ddylai fod ar gael, gan gynnwys pa bynciau TGAU.

Mae hwn yn gam pwysig tuag at lunio sut olwg fydd ar ystod y cymwysterau yn y dyfodol, ond nid dyma fydd diwedd y daith.

Ar ôl i ni gytuno ar ba gymwysterau 'gwneud-i-Gymru' sy'n ofynnol, byddwn yn symud ymlaen i ystyried sut y dylid eu cynllunio a'u hasesu. Er enghraifft, a ddylid parhau i'w hasesu trwy arholiadau neu ddefnyddio gwahanol ddulliau? Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i gasglu dulliau gwahanol a phrofi syniadau am wahanol ffyrdd o wneud pethau. Wrth i ni wneud hynny, byddwn yn ystyried sut y gall y newidiadau i gymwysterau mewn ymateb i bandemig Covid-19 ein helpu i feddwl yn wahanol ac ystyried posibiliadau newydd.

Mae gennym hefyd fwy o waith o'n blaenau i gytuno sut y gellir sicrhau bod cymwysterau eraill o bob rhan o'r DU ar gael i ysgolion a dysgwyr yng Nghymru. Yma eto bydd cydweithredu â rhanddeiliaid yn ganolog i'n dull ni o weithio.

Am y tro, fodd bynnag, rydym yn eich annog i fynegi eich barn ar y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn.

Philip Blaker
Prif Weithredwr

David B Jones OBE DL
Cadeirydd

Trosolwg

Ein rôl

Cymwysterau Cymru yw rheolydd annibynnol y cyrff dyfarnu[1] sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys TGAU, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol.

Fel y rheolydd, rydym yn gosod gofynion ar gyfer cyrff dyfarnu ac yn gwirio eu bod yn cwrdd â'r gofynion hynny. Rydym yn gwneud hyn i gyflawni ein nodau statudol o sicrhau bod cymwysterau, ynghyd â'r system sy'n eu cefnogi, yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn ennyn hyder y cyhoedd[2] .

Rydym yn sefydliad annibynnol, sy'n golygu ein bod yn gosod ein blaenoriaethau a'n rhaglen waith ein hunain. Fodd bynnag, rydym yn uniongyrchol atebol i'r Senedd, a gall ei haelodau ofyn i ni ar unrhyw adeg roi tystiolaeth am ein gwaith. Ym mhopeth a wnawn, rhaid inni ystyried polisi Llywodraeth Cymru, a gall Gweinidogion ofyn i ni am gyngor annibynnol ar faterion sy'n ymwneud â'n gwaith.

Er mwyn cyflawni ein nodau, mae gennym ystod o bwerau a chyfrifoldebau cyfreithiol. Er enghraifft, gallwn osod gofynion manwl ar gyfer sut y dylid cynllunio ac asesu'r prif gymwysterau a gymerir yng Nghymru. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn cyfeirio at y rhain fel cymwysterau 'gwneud-i-Gymru'. Rydym hefyd yn gyfrifol am benderfynu pa gymwysterau y gellir eu hariannu'n gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed.

Cwmpas yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn eich barn ar yr ystod o bynciau a ddylai fod ar gael fel TGAU yn y dyfodol a pha gymwysterau 'gwneud-i-Gymru' a ddylai fod ar gael ochr yn ochr â hwy.

Dyma'r ail mewn cyfres o ymgynghoriadau o'r enw *Cymwys ar gyfer y dyfodol* gyda'r nod o gytuno ar y genhedlaeth nesaf o gymwysterau ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed yng Nghymru.

Yn dilyn ein hymgynghoriad cyntaf cytunwyd y dylid dal i alw'r prif gymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 14 i 16 oed yn TGAU, ond y dylai cynnwys ac asesiad cymwysterau TGAU a ddilynir newid i ddiwallu anghenion y dyfodol.

Yn awr, rydym eisiau clywed eich barn ar y pynciau TGAU a chymwysterau eraill a ddylai fod ar gael i ysgolion[3] i'w helpu i ddarparu eu cwricwlwm a diwallu anghenion dysgwyr.

Ar ôl i ni gytuno ar y prif gymwysterau 'gwneud-i-Gymru' a fydd ar gael, byddwn wedyn yn gallu ystyried pa gymwysterau eraill ddylai fod ar gael i ysgolion a dysgwyr.

1 Mae cyrff dyfarnu yn sefydliadau sy'n datblygu ac yn cynnig cymwysterau. Maent yn gosod ac yn marcio asesiadau ac yn cyhoeddi canlyniadau a thystysgrifau i ddysgwyr.
2 Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ein-dull-gweithredu/
3 Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn defnyddio 'ysgol' i olygu pob darparwr addysg a ariennir yn gyhoeddus i bobl ifanc 14-16 oed; mae hyn yn cynnwys yr holl leoliadau ysgol a gynhelir, unedau atgyfeirio disgyblion (Uned/Unedau), a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS).

Sut i ymateb

Rydyn ni eisiau clywed gan unrhyw un sydd â diddordeb yn addysg pobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr, rhieni, gofalwyr, darparwyr dysgu a chyflogwyr.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi cefndir y cynigion i chi ac yn esbonio'r ffordd o feddwl y tu ôl iddynt. Yna mae'n nodi'r cwestiynau yr ydym yn eu gofyn am bob cynnig. Os yw'n well gennych, gallwch ddarllen fersiwn fyrrach a symlach o'r ddogfen ymgynghori hon yma.

Er mwyn dweud wrthym beth yw eich barn am y cynigion, defnyddiwch yr arolwg ar-lein. Gallwch ei weld trwy glicio ar y ddolen hon.

Mae'r arolwg ar-lein yn caniatáu i chi ddewis ateb cwestiynau am yr holl gynigion neu ddim ond canolbwyntio ar y rhai sydd o'r diddordeb mwyaf i chi.

Lle bo modd, cyflwynwch eich atebion gan ddefnyddio'r arolwg ar-lein. Os oes angen i chi ddarparu'ch ymateb trwy fformat gwahanol, anfonwch ef at:

Opinion Research Services yn QWconsultation@ors.org.uk, neu ORS, Y Strand, Abertawe, SA1 1AF.

Sut y byddwn yn defnyddio eich adborth

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, byddwn yn penderfynu a ddylid mabwysiadu, diwygio neu wrthod pob cynnig fesul un. Bydd hyn yn penderfynu pa gymwysterau 'gwneud-i-Gymru' a fydd ar gael yn y dyfodol i ysgolion a dysgwyr.

Unwaith y byddwn wedi gwneud ein penderfyniadau, byddwn yn cyhoeddi crynodeb a dadansoddiad o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Byddwn hefyd yn cyhoeddi'r rhesymau dros ein penderfyniadau, gan gynnwys sut rydym wedi ystyried yr adborth i'r ymgynghoriad.

Gallwch ddarllen mwy am sut y byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth a roddwch fel rhan o'r ymgynghoriad hwn trwy glicio ar y ddolen hon.

Beth fydd yn digwydd nesaf

Ar ôl i ni gadarnhau canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn troi ein sylw at ddau linyn gwaith cyfochrog:

1. Datblygu ac ymgynghori ar gynigion manwl ar gyfer pob cymhwyster 'gwneud -i-Gymru', gan gynnwys y cynnwys a'r dulliau asesu ar gyfer pob un.
2. Cymryd camau i sicrhau bod ystod addas o gymwysterau eraill yn parhau i fod ar gael i ysgolion a dysgwyr, ochr yn ochr ag unrhyw gymwysterau 'gwneud-i-Gymru'.

Cefndir

Cwricwlwm newydd i Gymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cwricwlwm newydd i Gymru a fydd yn berthnasol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

Ar hyn o bryd mae'r Senedd yn ystyried deddfwriaeth ddrafft a fydd yn sefydlu Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ('Fframwaith') newydd.

Mae'r Fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol yng Nghymru ddylunio ei chwricwlwm ysgol ei hun ('Cwricwlwm Ysgol') ac mae'n egluro'r hyn y mae'n rhaid i bob Cwricwlwm Ysgol ei gwmpasu.

Rhaid i Gwricwlwm Ysgol alluogi dysgwyr i wireddu'r Pedwar Diben o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn golygu eu cefnogi i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Rhaid i Gwricwlwm Ysgol fod yn eang a chytbwys ac adlewyrchu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad ('Maes/Meysydd') fel y'i disgrifir yng Nghanllawiau Cwricwlwm Cymru ('Canllawiau Cwricwlwm'). Y chwe Maes yw:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yn ogystal â'r Meysydd hyn, rhaid i Gwricwlwm Ysgol hefyd gynnwys yr elfennau gorfodol canlynol:

- Crefydd, gwerthoedd a moeseg
- Addysg cydberthynas a rhywioldeb
- Cymraeg
- Saesneg

Rhaid iddo hefyd fod wedi ymgorffori'r sgiliau trawsgwricwlaidd canlynol:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Cymhwysedd digidol.

Mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn nodi'n fanylach yr hyn y dylai Cwricwlwm Ysgol ei gwmpasu mewn perthynas â'r Meysydd, elfennau gorfodol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae'n werth nodi bod pob un o'r Meysydd yn cyfeirio at bynciau neu ddisgyblaethau unigol. Er enghraifft, mae Maes y Celfyddydau Mynegiannol yn cyfeirio at ddisgyblaethau celf, dawns, drama, ffilm a chyfryngau digidol a cherddoriaeth.

Dylai Cwricwlwm Ysgol gynnig dewis i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed arbenigo mwy mewn rhai Meysydd nag eraill, gan sicrhau ar yr un pryd eu bod yn profi rhywfaint o ddysgu ym mhob Maes.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Fframwaith yn cyfeirio'n uniongyrchol at gymwysterau. Mater i ysgolion fydd dewis y cymwysterau y maent am eu cynnig yn seiliedig ar eu Cwricwlwm Ysgol ac anghenion eu dysgwyr.

Cymwys ar gyfer y dyfodol

Mae *Cymwys ar gyfer y dyfodol yn* disgrifio'r gwaith y mae Cymwysterau Cymru yn ei wneud i gytuno sut y dylai cymwysterau newid i gefnogi Cwricwlwm i Gymru a diwallu anghenion dysgwyr yn y dyfodol.

Ein gweledigaeth yw i ddysgwyr ddilyn cymwysterau sy'n eu hysbrydoli a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith, sef cymwysterau sy'n:

- ennyn hyder y cyhoedd yng Nghymru, y DU, ac yn fyd-eang
- sicrhau dewis teg, cydlynol a dwyieithog i ysgolion a dysgwyr
- gwneud y gorau o dechnoleg ddigidol
- gallu cael eu cyflwyno mewn ffordd reoledig a chynaladwy .

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru newydd fesul cam; o fis Medi 2022 bydd yn berthnasol i bob dysgwr ym Mlwyddyn 7 ac is. Byddai'r llinell amser hon yn golygu y byddai'r garfan lawn gyntaf i brofi'r Cwricwlwm i Gymru newydd yn dechrau Blwyddyn 10 ym mis Medi 2025 ac yn gorffen Blwyddyn 11 yn haf 2027. Ein nod yw i ysgolion allu cynnig y dewisiadau cywir i'r dysgwyr hyn am y cymwysterau y byddant yn eu hastudio pan fyddant yn cyrraedd Blwyddyn 10.

Cymwys ar gyfer y dyfodol: y dewis cywir i Gymru



Cymwysterau 'gwneud-i-Gymru'

Wrth ystyried a ddylid cynllunio cymhwyster yn benodol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, mae'n bwysig ystyried beth fydd y galw tebygol amdano. Mae nifer y dysgwyr yng Nghymru yn gymharol fach o gymharu ag awdurdodaethau eraill y DU ac mae cyfyngiad ar faint o gymwysterau 'gwneud-i-Gymru' y gall y system yng Nghymru eu cefnogi.

Rydym wedi ystyried yn ofalus y galw tebygol yn y dyfodol am bob cymhwyster a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn. Dim ond pan ragwelwn ei bod yn debygol y bydd digon o alw gan ysgolion a dysgwyr i'w wneud yn hyfyw yr ydym yn cynnig cymhwyster 'gwneud-i-Gymru'.

Ni all cymwysterau pwrpasol 'gwneud-i-Gymru', ar eu pennau eu hunain, ddiwallu anghenion pob dysgwr 14 i 16 oed yng Nghymru. Fel sy'n digwydd yn awr, bydd yr ystod o gymwysterau sydd ar gael yn y dyfodol yn parhau i gynnwys cymysgedd o gymwysterau gwneud-i-Gymru a chymwysterau eraill a ddyluniwyd ar gyfer ac a ddilynir gan ddysgwyr ledled gwledydd Prydain ac yn rhyngwladol.

TGAU cynhwysol

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu ein cred y gall ystod fwy cynhwysol o gymwysterau TGAU helpu i ddileu'r gwahaniaeth di-fudd sy'n bodoli'n aml rhwng pynciau academaidd a galwedigaethol ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed.

Weithiau disgrifir TGAU fel cymwysterau academaidd, gyda mwy o bwyslais ar wybodaeth ddamcaniaethol a llai o gyfle i ddatblygu sgiliau ymarferol. Mae canfyddiad eu bod wedi'u hanelu'n llwyr at gefnogi dilyniant i astudio ymhellach yn Safon Uwch. Dyma ganfyddiad rydyn ni am ei newid.

Gellir cynllunio TGAU i asesu gwahanol fathau o wybodaeth a sgiliau ac i gefnogi dilyniant eang ar hyd llwybrau academaidd, technegol a galwedigaethol.

Mewn gwirionedd, mae llawer o gymwysterau TGAU eisoes yn cynnwys elfennau sylweddol o gynnwys ymarferol ac sy'n seiliedig ar sgiliau. Er enghraifft, mae TGAU Cerddoriaeth yn gofyn i ddysgwyr berfformio a chyfansoddi cerddoriaeth. Rhaid i ddysgwyr sy'n cymryd TGAU Dylunio a Thechnoleg ddylunio a gwneud cynnyrch. Mae sgiliau siarad a gwrando yn rhan bwysig o TGAU mewn Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol.

Nid yw p'un a ellir cynnig pwnc fel TGAU ai peidio yn dibynnu a yw'n ymwneud â chynnwys academaidd neu alwedigaethol. Yr hyn sy'n bwysig yw a ydyw'n gallu cefnogi cwrs dysgu perthnasol, cydlynol ac addas o heriol y gellir ei asesu yn unol â'n gofynion ni.

Adlewyrchir hyn yn y ffaith y gall dysgwyr yng Nghymru bellach ddilyn y TGAU canlynol:

- Technoleg Ddigidol
- Amgylchedd Adeiledig
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

Y camau nesaf

Cynnwys ac asesiad newydd

Ar y cam hwn, rydym eisiau cytuno ar yr ystod o bynciau a ddylai fod ar gael fel TGAU a chymwysterau eraill 'gwneud i Gymru'. Nid ydym yn cynnig y manylion ynghylch sut y dylid asesu'r cymwysterau hyn na pha gynnwys y byddant yn ei gwmpasu.

Mae'r rhain yn gwestiynau y byddwn yn mynd i'r afael â nhw yng ngham nesaf ein gwaith wrth i ni ddatblygu ac ymgynghori ar gynigion dylunio manwl ar gyfer pob cymhwyster 'gwneud i Gymru'.

Fel rhan o'r gwaith hwnnw, byddwn yn ymgysylltu ac yn cynnal ymchwil helaeth gyda rhanddeiliaid ar sut mae cymwysterau'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ac ar sut y gellid asesu yn wahanol yn y dyfodol. Byddwn yn archwilio sawl thema, gan gynnwys:

- sut y gall technoleg ddigidol wella profiad a darpariaeth asesu
- sut y gellir cynllunio cymwysterau i gynnig mwy o ddewis a hyblygrwydd yn y cynnwys y maent yn ei asesu
- amseriad asesiadau, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng arholiadau ar yr amserlen a mathau eraill o asesu
- rôl athrawon wrth ddylunio a darparu asesiad.

Cymwysterau ar gyfer pob dysgwr

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar TGAU a chymwysterau eraill 'gwneud i Gymru'. Ar ôl i ni gytuno ar y rhain, byddwn yn symud ymlaen i ganolbwyntio ar y cymwysterau eraill a ddylai fod ar gael fel y gellir diwallu anghenion pob dysgwr.

Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau sydd ar gael ar Lefel Mynediad a Lefel 1 Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru[4], yn ogystal â chymwysterau ar yr un lefel â TGAU[5]. Mae'r cymwysterau hyn yn cael eu cymryd mewn ystod eang o leoliadau, gan wahanol ddysgwyr am bob math o resymau. Maent yn chwarae rhan bwysig wrth ddiwallu anghenion dysgwyr ac yn cydnabod cyrhaeddiad ar draws sbectrwm eang o ddilyniant.

Yn dilyn ymgynghoriad cyntaf *Cymwys ar gyfer y dyfodol* cytunwyd y dylai'r holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed:

- ymwneud â nodau a dibenion Cwricwlwm i Gymru, a'u cefnogi
- fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg
- gyfrannu at ystod gydlynol a chynhwysol o gymwysterau sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.

4 Mae'r Fframwaith Credyd a Chymwysterau ar gyfer Cymru yn disgrifio'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n cwmpasu ystod eang o gymwysterau ar draws pob lefel o'r camau cychwynnol (Lefel Mynediad) i'r rhai mwyaf datblygedig (Lefel 8 e.e. Doethuriaeth). Ei nod yw helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dysgu a'u cyfleoedd posibl ar gyfer dilyniant.

5 Mae TGAU yn rhychwantu Lefelau 1 a 2 Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru.

Ffocws allweddol i ni eleni fydd gweithio gydag ysgolion, cyrff dyfarnu ac eraill i gytuno sut y gallwn gymhwyso'r egwyddorion hyn i'r ystod o gymwysterau a gynigir yn y dyfodol. Wrth wneud hynny byddwn yn sicrhau bod ysgolion a dysgwyr yn parhau i fod â dewis o gymwysterau sy'n cydnabod cyflawniad ar gamau dilyniant cynharach ac yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ar gyflymder sy'n iawn iddynt hwy.

Sut y datblygon ni'r ymgynghoriad hwn

Mae ein hymwneud â rhanddeiliaid trwy gydol y flwyddyn hon wedi ein helpu i lunio a mireinio'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd eu hamser i'n helpu gyda'r gwaith hwn.

Mae ein dull o ddatblygu'r cynigion hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaladwy[6] a'n hamcanion[7] fel y'u disgrifir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Asesu effaith bosibl

Fel corff cyhoeddus, mae'n ofynnol i ni asesu effaith debygol y penderfyniadau rheoliadol a gymerwn, boed yn effaith gadarnhaol neu negyddol. Mae hyn yn cynnwys asesu'r effaith bosibl ar y Gymraeg ac ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Disgwyliwn i'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn gael effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar yr iaith Gymraeg. Byddwn yn gofyn i'r holl gymwysterau sy'n cael eu cynnig fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau addysgu a dysgu fydd yn angenrheidiol ar gyfer eu cyflwyno. O ran effeithiau cydraddoldeb, byddai'n rhaid i'r holl gymwysterau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn fodloni ein hamodau safonol ar gyfer cymwysterau rheoledig. Mae hyn yn golygu y byddai angen eu cynllunio i asesu dysgwyr yn deg, yn ddibynadwy a heb ragfarn, i fod mor hygyrch â phosibl, ac i fod yn hylaw i ysgolion a dysgwyr.

Mae ein hasesiad effaith o bob un cynnig wedi cadarnhau fod y manteision posib ar gyfer pob un yn gorbwyso unrhyw gynnydd posib mewn costau. Lle rydym wedi adnabod cynnydd posib mewn costau, credwn fod cyfiawnhad dros y rhain gan eu bod yn anelu at sicrhau bod yr ystod o gymwysterau 'gwneud-i-Gymru' yn cefnogi Cwricwlwm i Gymru ac at ddarparu cyfleoedd ar gyfer arloesi a gwneud defnydd fwy effeithiol o dechnoleg ddigidol yn y broses asesu.

Yn ein trafodaethau ynghylch y cynigion lle rydyn ni'n credu y gallai unrhyw gynnig fod ag effaith negyddol posib, rydym wedi ystyried yr effaith a sut y gellir ei rheoli neu ei lliniaru'n effeithiol.

6 Mae'r egwyddor datblygu cynaladwy yn amlinellu pum ffordd o weithio y dylai cyrff cyhoeddus eu dilyn i gyflawni nodau llesiant y Ddeddf. Mae'r rhain yn rhai tymor hir (gan gydbwyso anghenion tymor byr a thymor hir); atal (atal problemau rhag digwydd neu waethygu i helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu nodau); integreiddio (ystyried effaith ein hamcanion ar nodau llesiant ac amcanion cyrff cyhoeddus eraill); cydweithredu (gweithio gyda phobl berthnasol eraill); a chynnwys (cynnwys eraill sydd â diddordeb yn y nodau llesiant).

7 https://www.qualificationswales.org/media/3338/wellbeing-future-generations-objectives-2018-w.pdf

Rydym hefyd wedi ystyried effaith gronnus bosibl mabwysiadu pob un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. Gallai gwneud hynny i gyd yr un pryd roi straen afrealistig ar ysgolion a chyrff dyfarnu. Er mwyn lliniaru hyn, byddwn yn cyflwyno cymwysterau newydd mewn camau sy'n arwain at fis Medi 2025. Rydym hefyd wedi nodi'r cynigion hynny y gellid eu cyflwyno yn hwyrach na Medi 2025 heb gyfyngu'n ormodol ar allu ysgolion i ddylunio a mabwysiadu eu Cwricwlwm Ysgol eu hunain.

Mewn rhai achosion, lle rydym yn cynnig y dylid cyfuno cymwysterau mewn rhai pynciau sydd â chyswllt agos i'w gilydd, nid lleihau dewis yw'r bwriad. Yn y Meysydd lle rydym yn cynnig cyfuno cymwysterau presennol, mae'r mwyafrif o ddysgwyr ar hyn o bryd yn dilyn sawl cymhwyster mewn pynciau tebyg neu â chysylltiad agos. Byddai creu cymwysterau newydd, mwy cyfunol yn y Meysydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion adlewyrchu ehangder a chydbwysedd eu Cwricwlwm Ysgol yn y cyfuniadau o gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr.

Yn yr arolwg ar-lein rydym yn gofyn cwestiynau yn benodol am effaith bosibl ein cynigion.

Cynigion

Rydym wedi grwpio'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn ôl y chwe Maes Dysgu a Phrofiad ('Maes/Meysydd') fel y disgrifir yng Nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru ('Canllawiau Cwricwlwm'). Mae yna hefyd adran ar asesu'r hyn y mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn cyfeirio atynt fel sgiliau cyfannol.

Mae pob adran yn rhoi trosolwg o'r cynigion a'r meddwl y tu ôl iddynt, ynghyd â rhai cwestiynau yn gofyn am eich barn.

Gan ddefnyddio'r arolwg ar-lein gallwch ddewis pa adrannau i'w darllen ac ymateb iddynt. Nid oes rhaid i chi ymateb i'r holl gwestiynau.

1. Y Celfyddydau Mynegiannol

Canllawiau Cwricwlwm[8]

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol ('Maes') yn cynnwys y disgyblaethau canlynol: celf, dawns, drama, ffilm a chyfryngau digidol a cherddoriaeth.

Y tri Datganiad o'r Hyn Sy'n Bwysig yn y Maes hwn[9] yw:

1. *Mae archwilio'r Celfyddydau Mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.*

2. *Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y Celfyddydau Mynegiannol.*

3. *Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.*

Y ddarpariaeth gyfredol

Yn y Maes hwn ar hyn o bryd, mae pedwar TGAU 'gwneud-i-Gymru' ar gael i ysgolion:

- Celf a Dylunio
- Drama
- Astudiaethau'r Cyfryngau
- Cerddoriaeth

Ochr yn ochr â'r pedwar TGAU 'gwneud-i-Gymru', gall ysgolion hefyd ddewis o ystod o gymwysterau eraill sy'n gysylltiedig â'r Maes hwn, gyda rhai ohonynt ar gael yn Saesneg yn unig.

Cynigir amryw o gymwysterau celfyddydau perfformio a chyfryngau creadigol gan ystod o gyrff dyfarnu. Mae rhai o'r rhain yn caniatáu i ddysgwyr astudio cyfuniad o ddisgyblaethau ac archwilio'r diwydiannau creadigol.

Mae TGAU a ddyluniwyd ar gyfer Lloegr[10] hefyd ar gael i ysgolion mewn Dawns ac Astudiaethau Ffilm. Mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd y cymwysterau hyn yn flynyddol yn isel iawn o'i gymharu â'r TGAU eraill yn y Maes hwn[11] .

8 Mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn gosod mewn mwy o fanylder yr hyn y dylai Cwricwlwm Ysgol ei gynnwys mewn perthynas â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, elfennau gorfodol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Am esboniad pellach gweler tud. 6

9 Yma, rydym wedi rhestru penawdau'r Datganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig ym mhob Maes. Disgrifir pob datganiad yn llawnach yn y Canllawiau Cwricwlwm.

10 Ers 2015 mae rhai gwahaniaethau rhwng TGAU a ddyluniwyd ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae TGAU yng Nghymru yn parhau i gael eu graddio A *-G, mae TGAU ar gyfer Lloegr bellach wedi'u graddio 9-1, ac yng Ngogledd Iwerddon mae gradd C * newydd wedi'i chyflwyno. Mae pob TGAU yn parhau i fod yn gymharol debyg o ran maint a lefel y galw.

11 Mae rhifau mynediad dros dro yn dangos, yn haf 2020, bod 15 cais ar gyfer Dawns TGAU (wedi'i raddio 9-1) a 125 cais ar gyfer Astudiaethau Ffilm TGAU (wedi'i raddio 9-1). Ffynhonnell: Cymwysterau Cymru / Cofrestriadau dros dro ar gyfer arholiadau Haf 2020 yng Nghymru: TGAU, UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau, a thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 (qualificationswales.org), Astudiaethau Ffilm TGAU (wedi'i raddio 9-1) a adroddwyd yn y categori 'Astudiaethau Cyfryngau/Ffilm/Teledu' a Dawns TGAU a adroddwyd o dan y Celfyddydau Perfformio/Mynegianol. Mae data lefel cymhwyster ar gael ar gais

Cipolwg ar gynigion

Er mwyn llunio'r ystod o gymwysterau ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol, rydym yn cynnig:

1. Adolygu a diwygio TGAU mewn Celf a Dylunio, Drama a Cherddoriaeth.
2. Creu TGAU newydd mewn Ffilm a Chyfryngau Digidol.
3. Sicrhau bod dewis o gymwysterau sy'n asesu dawns yn parhau i fod ar gael i ddysgwyr ac ysgolion.
4. Parhau i roi dewis o gymwysterau i ysgolion yn y Celfyddydau Mynegiannol sy'n cynnig dull amlddisgyblaethol.

Byddai cymwysterau eraill sy'n gysylltiedig â'r Maes hwn yn parhau i fod ar gael i ysgolion a dysgwyr, ar yr amod eu bod yn cwrdd â'n hegwyddorion arweiniol ac nad ydynt yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r prif gymwysterau 'gwneud-i-Gymru' yn y Maes hwn.

Y meddwl y tu ôl i'r cynigion

1. Adolygu a diwygio TGAU mewn Celf a Dylunio, Drama a Cherddoriaeth.

Byddai'r cynnig hwn yn parhau i roi i ysgolion a dysgwyr ddewis o gymwysterau TGAU sydd ar wahân i'w gilydd yn y Maes hwn, gan gynnig hyblygrwydd i ganolbwyntio ar un agwedd neu fwy o'r Maes hwn ochr yn ochr â'u hastudiaethau eraill. Mae'r cynnig hwn yn gyson â'r Canllawiau Cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn sy'n cydnabod arbenigedd pwnc yn y camau dilyniant diweddarach trwy amlinellu'r wybodaeth a'r sgiliau disgyblaeth-benodol sy'n ofynnol ar gyfer pob pwnc unigol.

Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym eu bod am weld mwy o ddysgwyr yn ymwneud â'r Maes hwn. Maent hefyd eisiau gweld y safonau perfformiad uchel presennol o fewn disgyblaethau unigol yn cael eu cynnal. Mae cymwysterau sy'n canolbwyntio ar ddisgyblaethau unigol yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu creadigrwydd wrth ennill yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi dilyniant pellach yn eu disgyblaeth ddewisol.

Os mabwysiadwn y cynnig hwn, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i gytuno ar gynnwys ac asesiad y cymwysterau TGAU newydd. Byddai hyn yn cynnwys edrych ar sut y dylid adlewyrchu'r sgiliau a'r wybodaeth ddisgyblaeth-benodol a ddisgrifir yn y Canllawiau Cwricwlwm ym mhob cymhwyster, ac ar sut i annog cysylltiadau ar draws y Maes hwn a chyda'r Cwricwlwm Ysgol[12] ehangach.

Byddem hefyd yn ystyried y gwahanol ffyrdd o asesu'r broses greadigol ynghyd ag asesu cymhwyso gwybodaeth a sgiliau yn ymarferol ac yn greadigol. Mae cyfle yma i dechnoleg ddigidol chwarae rhan wrth fod o gymorth i gofnodi'r broses o ddatblygu ac archwilio syniadau, yn ogystal â recordio'r arteffact neu'r perfformiad terfynol.

12 Pan ddaw Cwricwlwm i Gymru i rym bydd gofyn i bob ysgol greu ei Chwricwlwm Ysgol ei hun gan ddilyn Canllawiau Cwricwlwm Llywodraeth Cymru. Gweler tud. 6 am fwy o fanylion.

2. *Creu TGAU newydd mewn Ffilm a Chyfryngau Digidol.*

Mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn nodi Ffilm a Chyfryngau Digidol fel un o'r pum prif ddisgyblaeth yn y Maes hwn. Nid yw'r ddisgyblaeth hon yn cael ei hadlewyrchu'n llawn yn y cymwysterau Astudiaethau Cyfryngau TGAU ac Astudiaethau Ffilm TGAU cyfredol[13].

Felly, rydym yn cynnig creu cymhwyster TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol newydd a fyddai'n adlewyrchu'r Canllawiau Cwricwlwm yn agosach ac yn disodli'r cymwysterau Astudiaethau Cyfryngau TGAU ac Astudiaethau Ffilm TGAU presennol.

Os mabwysiadwn y cynnig hwn, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion ar gyfer sut y dylai'r sgiliau a'r wybodaeth a ddisgrifir yn y Canllawiau Cwricwlwm gael eu hadlewyrchu mewn cymhwyster. Byddai'r cymhwyster newydd yn canolbwyntio ar ddefnydd creadigol o dechnolegau cyfryngol at ddibenion artistig a chyfathrebu, gan gynnwys ystod o gyfryngau digidol fel animeiddio, fideograffeg a phodledu. Fel gyda'r TGAU arfaethedig eraill yn y Maes hwn, byddem yn edrych ar sut y gallai'r cymhwyster gysylltu â disgyblaethau eraill o fewn y Celfyddydau Mynegiannol ac â'r Cwricwlwm Ysgol ehangach.

Disgwyliwn y bydd digon o alw gan ysgolion a dysgwyr i wneud y cymhwyster arfaethedig hwn yn hyfyw i gorff dyfarnu ei ddatblygu a'i gyflawni. Bydd yn disodli dau TGAU presennol, ac mae'n cynnig cyfle i ddysgwyr archwilio materion sydd o ddiddordeb a pherthnasedd cynyddol i'w bywydau beunyddiol.

Wrth inni ddatblygu'r cymhwyster newydd, byddem yn adolygu'r Astudiaethau Cyfryngau TGAU ac Astudiaethau Ffilm TGAU presennol er mwyn ystyried pa agweddau ar gynnwys a dyluniad i'w hymgorffori yn y TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol newydd. Wrth i ni wneud hyn, byddem yn ogystal yn ystyried a ellid cynnwys unrhyw agweddau ar y cymwysterau hyn hefyd mewn cymwysterau newydd arfaethedig eraill.

Byddai'r cymhwyster arfaethedig yn cefnogi dilyniant i ystod o bynciau a llwybrau gyrfa o fewn y celfyddydau mynegiannol a'r diwydiannau creadigol ehangach. Wrth gytuno ar ddyluniad y cymhwyster hwn, byddem am sicrhau cydlyniad â TGAU cysylltiedig eraill megis Technoleg Ddigidol a rhai o'r elfennau o fewn Celf a Dylunio fel ffotograffiaeth.

3. *Sicrhau bod dewis o gymwysterau sy'n asesu dawns yn parhau i fod ar gael i ddysgwyr ac ysgolion.*

Ar hyn o bryd, dim ond un corff dyfarnu ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n cynnig TGAU Dawns. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y nifer sy'n sefyll y pwnc hwn fel TGAU yn gymharol isel ar draws y tair gwlad. TGAU wedi'i ddylunio ar gyfer Lloegr yw hwn[14] ac mae nifer y dysgwyr sy'n ei gymryd yng Nghymru yn isel iawn, gydag ond 15 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020[15] .

13 Mae TGAU Astudiaethau Ffilm yn gymhwyster a ddyluniwyd ar gyfer Lloegr ac sydd wedi'i raddio 9-1. Fe'i cynigir gan OCR a CBAC o dan y brand Eduqas. Mae'r cymhwyster Eduqas ar gael yn ddwyieithog.

14 Mae TGAU Dawns yn gymhwyster a ddyluniwyd ar gyfer Lloegr ac sydd wedi'i raddio 9-1. Fe'i cynigir gan AQA a dim ond trwy gyfrwng Saesneg y mae ar gael.

15 Ffynhonnell: Cymwysterau *Cofnodion dros dro ar gyfer TGAU Haf 2020, UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau, a Thystysgrifau Lefel 1 / Lefel 2 ar gyfer Cymru.* Ar gael oddi wrth: https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/cyflwyno-data-dros-dro-ar-gofrestriadau-ar-gyfer-arholiadau-haf-2020/

Mae'r defnydd isel hwn yn golygu ei bod yn annhebygol o fod yn hyfyw i gorff dyfarnu ddatblygu TGAU a fwriadwyd ar gyfer dysgwyr yng Nghymru yn unig, gan y byddai'r gost o ddatblygu'r cymhwyster hwn yn llawer uwch nag y gallai ffioedd mynediad ei dalu. Mae niferoedd bach iawn hefyd yn cyflwyno heriau wrth asesu a graddio cymwysterau os nad oes digon o waith i gymharu'r safon sy'n ofynnol ar bob ffin gradd o un flwyddyn i'r llall.

Gan ei bod yn hynod annhebygol y byddwn yn gallu datblygu cymhwyster TGAU Dawns 'gwneud-i-Gymru', byddwn yn ceisio sicrhau bod dewis o gymwysterau eraill sy'n asesu dawns[16] yn parhau i fod ar gael i ysgolion a dysgwyr.

4. Parhau i roi dewis o gymwysterau i ysgolion yn y Celfyddydau Mynegiannol sy'n cynnig dull amlddisgyblaethol.

Byddai'r cynnig hwn yn cefnogi dysgwyr sy'n dymuno parhau â'u hastudiaethau ac archwilio'r Maes heb ganolbwyntio ar arbenigedd penodol.

Mae'r Canllawiau Cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn yn annog ysgolion a dysgwyr i archwilio'r Datganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig trwy'r gwahanol ddisgyblaethau yn y Celfyddydau Mynegiannol. Mae hyn yn adlewyrchu, er bod gan bob disgyblaeth ei gwybodaeth a'i sgiliau arbenigol penodol ei hun, mae yna lawer sy'n gyffredin oddi mewn iddynt hefyd. Mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn argymell y dylai dysgwyr ymgysylltu â phob agwedd o'r Maes hwn nes eu bod yn 14 oed, ac o leiaf rai agweddau o fewn y Maes o 14 i 16 oed. Er y bydd rhai dysgwyr eisiau arbenigo yn 14 oed a chanolbwyntio'n bennaf ar un neu ddwy ddisgyblaeth yn y Maes hwn, efallai y bydd eraill am barhau i gymryd agwedd amlddisgyblaethol ehangach.

Ar hyn o bryd, gall ysgolion yng Nghymru ddewis o sawl cymhwyster gwahanol o fewn y Maes hwn sy'n cymryd agwedd amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant. Cynigir y cymwysterau hyn gan amrywiol gyrff dyfarnu ac ni chânt eu cymryd yng Nghymru yn unig, sy'n golygu nad ydynt yn dibynnu'n llwyr ar nifer y dysgwyr yng Nghymru i'w gwneud yn hyfyw. Mae'r cymwysterau hyn yn cael eu parchu gan ysgolion a chan y rhai sy'n gweithio yn y celfyddydau mynegiannol. Mae rhai o'r cymwysterau hyn hefyd yn canolbwyntio ar weithio yn y diwydiannau celfyddydol a chreadigol, er enghraifft archwilio dylunio set, neu reoli digwyddiadau a marchnata.

Rydym wedi penderfynu peidio â chynnig cymhwyster 'gwneud-i-Gymru' sy'n cynnig dull amlddisgyblaethol o ymdrin â'r Maes hwn. Byddai gwneud hynny yn golygu disodli'r ystod gyfredol o gymwysterau gydag un cymhwyster, sy'n annhebygol o gynnig yr un graddau o ddewis a hyblygrwydd. Byddai unrhyw gymhwyster newydd yn cymryd amser i sefydlu ei hun fel dewis arall credadwy yn lle'r cymwysterau presennol yn y Maes hwn. Nid yw'n sicr chwaith y byddai digon o alw i wneud cymhwyster amlddisgyblaethol 'gwneud-i-Gymru' yn hyfyw.

Yn lle hyn, rydym yn cynnig cymryd camau i sicrhau y gall ysgolion yng Nghymru barhau i gynnig cymwysterau amlddisgyblaethol yn y Maes hwn sy'n cwrdd â'n hegwyddorion arweiniol.

16 Er enghraifft, y cymwysterau dawns graddedig a gynigir gan ISTD a chymwysterau BTEC Pearson yn y Celfyddydau Perfformio.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

1. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i adolygu a diwygio TGAU mewn Celf a Dylunio, Drama a Cherddoriaeth?**

2. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU newydd mewn Ffilm a'r Cyfryngau Digidol?**

3. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i sicrhau bod dewis o gymwysterau sy'n asesu dawns yn parhau i fod ar gael i ddysgwyr ac ysgolion?**

4 **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i barhau i roi dewis o gymwysterau yn y Celfyddydau Mynegiannol i ysgolion sy'n cynnig dull amlddisgyblaethol?**



2. Iechyd a lles

Canllawiau Cwricwlwm[17]

Y cydrannau sylfaenol y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ('Maes') yw iechyd a datblygiad corfforol, iechyd meddwl, a lles emosiynol a chymdeithasol.

Y pum Datganiad o'r Hyn Sy'n Bwysig yn y Maes hwn[18] yw:

1. *Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes*
2. *Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol*
3. *Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill*
4. *Mae'r ffordd yr ydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles*
5. *Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles*

Fel sy'n wir am Feysydd eraill, bwriad y datganiadau hyn yw cefnogi ac ategu ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried ar wahân. Maent yn rhoi fframwaith i weithwyr addysg proffesiynol er mwyn nodi ac ymdrin â'r pynciau a'r materion sydd fwyaf perthnasol i ddysgwyr ac sy'n adlewyrchu cwricwlwm lleol ysgol.

Mae yna lawer o wahanol faterion, themâu a phynciau y gallai ysgolion a dysgwyr eu harchwilio wrth iddynt ymgysylltu â'r Maes hwn, gan gynnwys elfennau sy'n gysylltiedig â Meysydd eraill o fewn y cwricwlwm.

Y ddarpariaeth gyfredol

Yn y Maes hwn ar hyn o bryd mae tri TGAU 'gwneud-i-Gymru' ar gael i ysgolion:

- Addysg Gorfforol[19]
- Bwyd a Maeth
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

Mae TGAU wedi'i ddylunio ar gyfer Lloegr[20] hefyd ar gael mewn Astudiaethau Dinasyddiaeth, ond dim ond trwy gyfrwng y Saesneg.

Mae cymwysterau heblaw TGAU ar gael mewn ystod o bynciau cysylltiedig, gan gynnwys:

- Datblygiad personol a chymdeithasol
- Twf a lles personol
- Iechyd meddwl a lles
- Byw'n iach a ffitrwydd

17 Mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn gosod mewn mwy o fanylder yr hyn y dylai Cwricwlwm Ysgol ei gynnwys mewn perthynas â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, elfennau gorfodol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Am esboniad pellach gweler tud. 6

18 Yma, rydym wedi rhestru penawdau'r Datganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig ym mhob Maes. Disgrifir pob datganiad yn llawnach yn y Canllawiau Cwricwlwm.

19 Ar gael fel cwrs llawn a chwrs byr TGAU. Mae'r cwrs llawn yn debyg o ran maint i TGAU eraill, mae'r cwrs byr yn ymdrin â hanner cynnwys y cwrs llawn.

20 Ers 2015 mae rhai gwahaniaethau rhwng TGAU a ddyluniwyd ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae TGAU Cymru yn parhau i gael eu graddio A *-G, mae TGAU ar gyfer Lloegr bellach wedi'u graddio 9-1, ac yng Ngogledd Iwerddon mae gradd C * newydd wedi'i chyflwyno. Mae pob TGAU yn parhau i fod yn gymharol debyg o ran maint a lefel y galw. Mae rhai gwahaniaethau yn y pynciau TGAU a ddyluniwyd ar gyfer pob awdurdodaeth.

Mae'r cymwysterau hyn wedi'u cynllunio'n nodweddiadol i gefnogi dilyniant ac maent yn cael eu cynnig ar wahanol lefelau o'r Fframwaith Credyd a Chymwysterau ar gyfer Cymru[21] yn amrywio o Lefel Mynediad i Lefel 2. Mae rhai ar gael yn ddwyieithog ac eraill ar gael yn Saesneg yn unig.

Cipolwg ar gynigion

Er mwyn llunio'r ystod o gymwysterau yn y Maes hwn:

1. Rydym yn cynnig peidio creu cymhwyster newydd a fyddai'n cefnogi cyflwyno'r Maes hwn yn ei gyfanrwydd.
2. Rydym yn cynnig adolygu a diwygio TGAU mewn Bwyd a Maeth, Addysg Gorfforol, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

Y meddwl y tu ôl i'r cynigion

1. Rydym yn cynnig peidio creu cymhwyster newydd a fyddai'n cefnogi cyflwyno'r Maes hwn yn ei gyfanrwydd.

Byddai'r cynnig hwn yn caniatáu rhyddid i ysgolion ddylunio a darparu eu hagwedd eu hunain tuag at y Maes hwn yn unol â'u Cwricwlwm Ysgol[22] ac anghenion eu dysgwyr. Credwn mai hon fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o adlewyrchu'r pwysigrwydd sydd i'r Maes hwn yng Nghwricwlwm Cymru a'i statws cyfartal â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill.

Ni fyddai cymhwyster sy'n rhychwantu'r Maes cyfan hwn yn cynnig y ffordd fwyaf priodol o asesu datblygiad dysgwyr o'u hiechyd a'u lles eu hunain. Rydym hefyd o'r farn y byddai'r risgiau a'r heriau posibl o wneud hynny yn gorbwyso unrhyw fanteision posibl.

Os ydym yn creu cymhwyster sy'n cwmpasu'r Maes cyfan hwn, gallai ysgolion deimlo o dan bwysau i'w gynnig yn lle mabwysiadu eu meddylfryd eu hunain tuag at y Maes hwn fel rhan o'u Cwricwlwm Ysgol. Fel gydag unrhyw gymhwyster, byddai canolbwyntio anochel ar baratoi ar gyfer yr asesiadau a'u pasio, a gallai hyn ddargyfeirio amser ac ymdrech i ffwrdd oddi wrth ddatblygu iechyd a lles y dysgwyr eu hunain. Byddai cwrdd â gofynion asesu cymhwyster yn debygol o gyfyngu ar yr ystod o bynciau y gallai dysgwyr eu harchwilio mewn perthynas â datblygiad eu hiechyd a'u lles eu hunain. Mae risg hefyd y gallai asesiad ffurfiol o'r Maes hwn asesu dim ond yr agweddau hynny ar ddysgu y gellir eu mesur yn ddibynadwy, yn hytrach na mesur yr hyn sydd wir yn bwysig. O ganlyniad, gallai creu cymhwyster generig ar gyfer y Maes hwn gynyddu'r risg yn anfwriadol ei fod yn cael ei ystyried yn ychwanegiad i Gwricwlwm Ysgol yn hytrach nag yn rhan fwy integredig o brofiad dysgwr.

21 Mae'r Fframwaith Credyd a Chymwysterau ar gyfer Cymru yn disgrifio'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n cwmpasu ystod eang o gymwysterau ar draws pob lefel o'r camau cychwynnol (Lefel Mynediad) i'r rhai mwyaf datblygedig (Lefel 8 e.e. Doethuriaeth). Ei nod yw helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dysgu a'u cyfleoedd dilyniant posibl.

22 Pan ddaw Cwricwlwm i Gymru i rym bydd gofyn i bob ysgol greu ei Chwricwlwm Ysgol ei hun gan ddilyn Canllawiau Cwricwlwm Llywodraeth Cymru. Gweler tud. 6 am fwy o fanylion.

Dadleua rhai fod angen cymhwyster er mwyn adlewyrchu statws cyfartal y Maes hwn â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill. O ystyried y pwyslais trwm y mae'r system bresennol yn ei roi ar gymwysterau, mae hwn yn safbwynt dealladwy. Ond mae Cwricwlwm Ysgol yn ymwneud â llawer mwy na chymwysterau. Ac mae ein hymgysylltiad ag ysgolion ac athrawon yn awgrymu eu bod yn debygol o flaenoriaethu datblygu iechyd a lles eu dysgwyr ni waeth a ydynt yn dilyn cymhwyster ynddo ai peidio. Byddai absenoldeb cymhwyster 'gwneud-i-Gymru' yn rhoi rhyddid iddynt hwy a'u dysgwyr ddatblygu ac archwilio eu hagweddau eu hunain tuag at y Maes hwn. Mae'r math hwn o ddull ysgol gyfan yn fwy tebygol o ennyn diddordeb dysgwyr ac i roi'r profiadau a'r sgiliau gwerthfawr sydd eu hangen arnynt a bydd hynny'n eu gwasanaethu'n dda i'r dyfodol.

Rheswm arall dros beidio â datblygu cymhwyster 'gwneud-i-Gymru' yn y Maes hwn yw y byddai gwneud hynny yn cyflwyno heriau asesu sylweddol a allai gael effaith negyddol ar addysgu a dysgu. Mae'r Maes hwn yn ymwneud â datblygu ymddygiadau a ffyrdd o feddwl er mwyn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles eu hunain ac eraill. Byddai'n heriol asesu'r mathau hyn o nodweddion cymeriad yn ddilys ac yn deg ar draws y garfan genedlaethol. Byddai'n anoddach fyth gwneud hynny mewn ffordd sy'n rhoi dewis rhydd i ysgolion a dysgwyr o'r elfennau y maent am ganolbwyntio arnynt. Bydd rhai o'r elfennau hyn yn sensitif ac yn bersonol arwyddocaol i rai dysgwyr, er enghraifft, trafodaethau sy'n ymwneud â hunaniaeth, profedigaeth, bwlio neu gam-drin sylweddau. Wrth asesu pynciau o'r fath, mae perygl y gallai rhai dysgwyr gael eu rhoi o dan anfantais oherwydd y profiadau personol sy'n cael eu trafod.

Mae'r heriau hyn yn golygu bod creu cymhwyster ar gyfer y Maes hwn yn creu perygl naill ai canolbwyntio gormod ar yr hyn y gellir ei asesu'n ddiogel ac yn ddibynadwy ar lefel genedlaethol, neu fod y tasgau asesu mor benagored a hynod ragweladwy nes ei fod yn annog ymatebion fformiwla ac arwynebol. Gallai'r naill ddull neu'r llall gael effaith gul ar addysgu a dysgu.

Wrth wneud y cynnig hwn i beidio â chreu cymhwyster generig newydd yn y Maes hwn, mae'n bwysig dweud y gallai cymwysterau barhau i fod yn rhan ddefnyddiol o agwedd ysgol tuag at y Maes hwn. Gallai ysgol gynnig cyfle i gymryd un neu hyd yn oed sawl cymhwyster bach sy'n gysylltiedig â'r Maes hwn fel rhan o'i dull gweithredu. Mae cymwysterau eisoes ar gael i ysgolion yn y Maes hwn y gellid eu defnyddio fel hyn. Byddwn yn annog cyrff dyfarnu i barhau i gynnig y cymwysterau hyn yn unol â'n hegwyddorion arweiniol. Ymhen amser, efallai y bydd ysgolion a chyrff dyfarnu eisiau gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cymwysterau yn seiliedig ar yr hyn y mae ysgolion yn ei gyflawni.

2. ***Rydym yn cynnig adolygu a diwygio TGAU mewn Bwyd a Maeth, Addysg Gorfforol ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.***

Mae'r cymwysterau hyn yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu diddordeb mewn amrywiaeth o feysydd pwnc a chefnogi camau i ddysgu pellach.

Mae ein hymgysylltiad ag athrawon yn awgrymu bod y dysgwyr sy'n eu hastudio yn mwynhau'r pynciau hyn a bod rhanddeiliaid yn eu deall yn dda. Ni welwn unrhyw reswm i roi'r gorau i'r cymwysterau hyn: maent yn cefnogi ymgysylltiad dysgwyr, maent yn hyfyw, ac maent yn cael eu gwerthfawrogi.

Er bod gan y pynciau hyn gysylltiad eang ag Iechyd a Lles, maent hefyd yn cynnwys elfennau o Feysydd Dysgu a Phrofiad eraill, gan gynnwys Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Mathemateg a Rhifedd, a'r Dyniaethau. Mae ganddynt hefyd gysylltiadau clir â Phedwar Diben y Cwricwlwm.

Os mabwysiadwn y cynnig hwn, byddwn yn adolygu cynnwys ac asesiad y TGAU presennol yn y pynciau hyn i ystyried unrhyw newidiadau a allai fod yn ofynnol. Mae hyn yn golygu y byddai'r cymwysterau TGAU yn y Maes hwn yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r Canllawiau Cwricwlwm yn well. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ystyried sut y gall dyluniad ac asesiad y cymwysterau hyn adlewyrchu elfennau sylfaenol y Maes hwn. Byddem hefyd yn edrych ar sut y gallai'r cymwysterau hyn gynnwys a chefnogi agweddau eraill ar Gwricwlwm Ysgol.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

1. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i beidio â chreu cymhwyster newydd a fyddai'n cefnogi cyflwyno'r Maes cyfan hwn?**

2. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i adolygu a diwygio TGAU mewn Bwyd a Maeth, Addysg Gorfforol, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant?**



3. Y Dyniaethau

Canllawiau Cwricwlwm[23]

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ('Maes') yn cynnwys y disgyblaethau canlynol: astudiaethau busnes; daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; ac astudiaethau cymdeithasol. Mae'r Canllawiau Cwricwlwm hefyd yn nodi bod y disgyblaethau canlynol yn ategu'r Maes hwn: clasuron, economeg, y gyfraith, athroniaeth, gwleidyddiaeth, seicoleg a chymdeithaseg.

Y pum Datganiad o'r Hyn Sy'n Bwysig yn y Maes hwn[24] yw:

1. *Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.*
2. *Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.*
3. *Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.*
4. *Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.*
5. *Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.*

Y ddarpariaeth gyfredol

Yn y Maes hwn ar hyn o bryd, mae pedwar TGAU 'gwneud-i-Gymru' ar gael i ysgolion, sef:

- Busnes
- Daearyddiaeth
- Hanes
- Astudiaethau Crefyddol[25]

Diwygiwyd y cymwysterau hyn i gyd yn 2016/2017. Mae ein hymchwil a'n hymgysylltiad ag athrawon yn dangos bod y manylebau newydd hyn yn cael eu hystyried yn drwm eu cynnwys ac yn heriol i'w cyflawni yn yr amser a benodir o fewn ysgolion i addysgu'r pynciau hyn.

Ochr yn ochr â'r TGAU 'gwneud-i-Gymru' hyn yn unig, mae cymwysterau TGAU sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Lloegr[26] ar gael yn:

Hanes yr Hen Fyd	Economeg
Busnes Cymhwysol	Y Gyfraith
Dinasyddiaeth	Seicoleg
Gwareiddiad Clasurol	Cymdeithaseg

23 Mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn gosod mewn mwy o fanylder yr hyn y dylai Cwricwlwm Ysgol ei gynnwys mewn perthynas â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, elfennau gorfodol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Am esboniad pellach gweler tud. 6

24 Yma, rydym wedi rhestru penawdau'r Datganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig ym mhob Maes. Disgrifir pob datganiad yn llawnach yn y Canllawiau Cwricwlwm..

25 Ar gael fel cwrs llawn a chwrs byr TGAU cwrs. Mae'r cwrs llawn yn debyg o ran maint i TGAU eraill, mae'r cwrs byr yn ymdrin â hanner cynnwys y cwrs llawn.

26 Ers 2015 mae rhai gwahaniaethau rhwng TGAU a ddyluniwyd ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae TGAU Cymru yn parhau i gael eu graddio A*-G, mae TGAU ar gyfer Lloegr bellach wedi'u graddio 9-1, ac yng Ngogledd Iwerddon mae gradd C* newydd wedi'i chyflwyno. Mae pob TGAU yn parhau i fod yn gymharol debyg o ran maint a lefel y galw.

Ac eithrio Cymdeithaseg, dim ond yn Saesneg y mae'r cymwysterau hyn ar gael. Mae nifer y dysgwyr sy'n eu cymryd yn gyffredinol yn llawer is nag ar gyfer y prif gymwysterau TGAU yn y maes hwn.

Mae cymwysterau heblaw TGAU hefyd ar gael yn y canlynol:

Busnes
Marchnata
Teithio a Thwristiaeth

Mae rhai o'r cymwysterau hyn ar gael yn ddwyieithog, mae eraill ar gael yn Saesneg yn unig.

Cipolwg ar gynigion

Er mwyn llunio'r ystod o gymwysterau ar gyfer y Dyniaethau, rydym yn cynnig:

1. Adolygu a diwygio TGAU mewn Busnes, Daearyddiaeth, Hanes ac Astudiaethau Crefyddol.
2. Creu TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol, os yw'n ymarferol bosib.
3. Creu TGAU integredig newydd yn y Dyniaethau, os yw'n ymarferol bosib.

Bydd cymwysterau mewn disgyblaethau sy'n gysylltiedig â'r Maes hwn yn parhau i fod ar gael i ysgolion a dysgwyr, ar yr amod eu bod yn cwrdd â'n hegwyddorion arweiniol ac nad ydynt yn dyblygu'r prif gymwysterau a wneir ar gyfer Cymru yn y Maes hwn.

Y meddwl y tu ôl i'r cynigion

1. Adolygu a diwygio TGAU mewn Busnes, Daearyddiaeth, Hanes ac Astudiaethau Crefyddol.

Byddai'r cynnig hwn yn parhau i gynnig dewis i ysgolion a dysgwyr parthed y cymwysterau TGAU sydd ar wahân i'w gilydd yn y Maes hwn, a rhoi hyblygrwydd iddynt ganolbwyntio a chyfuno eu diddordebau yn y Maes hwn a'u Cwricwlwm Ysgol[27] ehangach.

Os mabwysiadwn y cynnig hwn, byddem yn adolygu cynnwys ac asesiad y TGAU presennol. O ystyried sut mae'r Maes hwn wedi'i strwythuro a'i ffocysu, rydym yn disgwyl y bydd angen diwygio cymwysterau yn y disgyblaethau hyn yn sylweddol. Byddem yn gweithio'n agos gyda llawer o wahanol randdeiliaid i ddatblygu cynigion ymgynghori ar gyfer dyluniad manwl y cymwysterau diwygiedig newydd.

Bydd ailwampio cynnwys ac asesiad y cymwysterau hyn yn caniatáu iddynt gyd-fynd yn llawnach â'r Canllawiau Cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn a phwysleisio'r cysylltiadau rhyngddo a Meysydd eraill. Bydd adolygu'r cymwysterau hyn gyda'i gilydd hefyd yn caniatáu dull cyson o ymdrin â'r elfennau sydd ganddynt yn gyffredin, er enghraifft o ran sut y maent yn asesu ac yn annog datblygu sgiliau ymholi.

Wrth ddiwygio'r cymwysterau hyn, byddem yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ystyried sut y dylid adlewyrchu, o fewn cymhwyster, y sgiliau a'r wybodaeth gysyniadol a ddisgrifir yn y Canllawiau Cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn. Byddem hefyd yn archwilio sut y gallai dylunio asesu gynnig mwy o ryddid i ysgolion ddewis y cynnwys a'r cyd-destunau penodol ar gyfer dysgu sy'n caniatáu i'w dysgwyr ddatblygu a dangos yr wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol.

27 Pan ddaw Cwricwlwm i Gymru i rym bydd gofyn i bob ysgol greu ei Chwricwlwm Ysgol ei hun gan ddilyn Canllawiau Cwricwlwm Llywodraeth Cymru. Gweler tud. 6 am fwy o fanylion.

Bydd angen i gymwysterau diwygiedig yn y disgyblaethau hyn gefnogi ac annog dysgwyr i symud ymlaen tuag at astudiaethau pellach mewn pynciau sy'n gysylltiedig â'r Dyniaethau, yn ogystal ag yn fwy cyffredinol. Mae darparwyr dysgu ôl-16 wedi dweud wrthym, er y gall dilyn cymhwyster cyn-16 mewn pwnc cysylltiedig helpu dysgwyr sydd am fynd ymlaen i astudio disgyblaethau'r Dyniaethau, nid yw'n cael ei ystyried yn hanfodol yn gyffredinol.

Wrth adolygu a diwygio Astudiaethau Crefyddol TGAU, bydd angen egluro'r berthynas rhwng y cymhwyster newydd a'r gofyniad statudol arfaethedig i bob dysgwr astudio Crefydd, gwerthoedd a moeseg nes eu bod yn 16 oed. Efallai y bydd angen newid teitl y cymhwyster i wneud y berthynas yn glir; byddwn yn archwilio hyn wrth ymgynghori ar ddyluniad arfaethedig y cymhwyster newydd. Byddwn hefyd yn ystyried a ddylai fersiwn cwrs byr o'r TGAU hwn barhau i fod ar gael.

Os caiff ei ddeddfu, byddai Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)[28] yn ei gwneud yn ofynnol i'r mwyafrif o ysgolion a ariennir yn gyhoeddus ddilyn maes llafur cyffredin y cytunwyd arno ar gyfer Crefydd, gwerthoedd a moeseg, gan ganiatáu i rai ysgolion a ariennir yn gyhoeddus sydd â chymeriad crefyddol ddilyn maes llafur enwadol. Felly, bydd angen i unrhyw gymhwyster diwygiedig y bwriedir iddo gefnogi elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg Cwricwlwm Cymru fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer gwahanol ffyrdd lleol o weithredu. Byddwn yn gweithio'n agos gydag ystod o wahanol randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o wahanol gredoau a bydolygon, i sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd yn iawn.

2. Creu TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol, os yw'n ymarferol bosib.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gymhwyster Astudiaethau Cymdeithasol ar gael i ysgolion a dysgwyr. Byddai creu TGAU Astudiaethau Cymdeithasol newydd yn ei osod ar sail gyfartal â phrif ddisgyblaethau eraill y Dyniaethau .

Yn ôl y Canllawiau Cwricwlwm, mae'r ddisgyblaeth hon yn annog dysgwyr i gymryd rhan weithredol ac ymgysylltu â materion cymdeithasol mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, trwy ymholi cymdeithasol, trafodaethau a gweithredu cymdeithasol.

Mae potensial amlwg i greu cymhwyster newydd yn y ddisgyblaeth hon sy'n cefnogi Pedwar Diben y Cwricwlwm ac sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ymgysylltu â digwyddiadau cyfredol a chyda chwestiynau pwysig ein hoes, wrth archwilio materion cymdeithasol, hunaniaeth, hawliau a threfniadaeth gymdeithasol .

Mae creu TGAU Astudiaethau Cymdeithasol newydd yn cynnig llawer o'r un manteision ag adolygu a diwygio'r TGAU presennol yn y Maes hwn. Mae'n gyfle i ddatblygu cymhwyster gyda chynnwys ac asesiad sy'n cefnogi'r Canllawiau Cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn ac y gellir ei deilwra i Gwricwlwm Ysgol ac i ddiddordebau penodol dysgwr.

Rydym eisiau cadarnhau a fydd digon o alw gan ysgolion a dysgwyr i wneud y cymhwyster arfaethedig hwn yn hyfyw i gorff dyfarnu ei ddatblygu a chyflawni. Er mwyn ein helpu i benderfynu a ddylid mabwysiadu'r cynnig hwn, rydym yn cynnal ymchwil marchnad ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

Os derbyniwn y cynnig, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynnwys ac asesiad arfaethedig ar gyfer y cymhwyster newydd. Yn ddibynnol ar ddyluniad terfynol y cymhwyster, gallai ddisodli rhai o'r cymwysterau TGAU presennol mewn pynciau fel dinasyddiaeth, cymdeithaseg a'r gyfraith.

28 I gael mwy o wybodaeth am y bil, ewch i: https://llyw.cymru/bil-cwricwlwm-ac-asesu-cymru

Er y byddai hwn yn gymhwyster newydd, byddem am iddo gael ei ddatblygu a'i gyflwyno ochr yn ochr â TGAU diwygiedig yn y Maes hwn i adlewyrchu ehangder llawn Canllawiau Cwricwlwm y Dyniaethau.

3. Creu TGAU integredig newydd yn y Dyniaethau, os yw'n ymarferol bosib.

Gallai cymhwyster sy'n defnyddio dull integredig a thematig ganiatáu i ddysgwyr ddatblygu sgiliau a gwybodaeth gyffredin sylfaenol ac i weld sut mae'r gwahanol ddisgyblaethau yn y Maes hwn yn cysylltu â'i gilydd.

Ar y cam hwn, nid ydym ond yn cynnig archwilio dyluniad a hyfywedd posibl y math hwn o gymhwyster. Mae hyn oherwydd ein bod yn rhagweld sawl her bosibl y byddai angen eu goresgyn.

Er mwyn creu cymhwyster o'r math hwn, bydd angen cytuno ar yr wybodaeth a'r sgiliau cyffredin y dylai dysgwyr eu cael. Mewn egwyddor mae dull mwy thematig ac integredig yn cynnig y posibilrwydd o ymgysylltu â phob un o'r pum disgyblaeth a phob un o'r pum Datganiad o'r Hyn Sy'n Bwysig ar gyfer y Maes hwn. Yn ymarferol, bydd yn anodd cyflawni hynny mewn ffordd sy'n sicrhau bod y cynnwys yn parhau i fod yn gydlynol ac yn hylaw. Mae'n bosibl y bydd angen i gymhwyster o'r math hwn fod yn fwy na chymwysterau TGAU arfaethedig eraill yn y Maes hwn, gan fod yn fwy tebyg o ran maint i ddau TGAU (dyfarniad dwbl).

Hefyd, bydd angen galw digonol gan ysgolion a dysgwyr i'w gwneud yn hyfyw i gorff dyfarnu ddatblygu a darparu cymhwyster o'r fath. Ar y cam hwn, rydym yn llai hyderus pa mor hyfyw fyddai TGAU y Dyniaethau newydd nag yr ydym ar gyfer yr Astudiaethau Cymdeithasol TGAU newydd arfaethedig. Roedd TGAU y Dyniaethau cyfunol a gynigiwyd yn y gorffennol yn ei chael yn anodd denu digon o ddysgwyr i aros yn hyfyw. Er y gellid sefyll y TGAU Astudiaethau Cymdeithasol newydd mewn cyfuniad â TGAU eraill yn y Maes hwn, mae TGAU y Dyniaethau integredig yn fwy tebygol o gael ei gynnig fel dewis arall yn lle cymwysterau TGAU disgyblaeth-benodol eraill, yn enwedig os yw'n fwy nag un TGAU yn y pen draw. O ymgysylltu ag ysgolion cawn yr awgrym, pe byddent yn cynnig TGAU y Dyniaethau, byddent yn fwyaf tebygol o wneud hynny yn ychwanegol at y TGAU eraill sydd ar gael yn y Maes hwn, sy'n debygol o leihau ei ddefnydd posibl ymhellach.

Mae ysgolion wedi dweud wrthym y byddent yn gwerthfawrogi cymhwyster sy'n cynnig dewis arall yn lle cymwysterau disgyblaeth-benodol. Byddem eisiau caniatáu dull thematig cwbl integredig, yn hytrach na chymysgu a chyfateb unedau sy'n ddisgyblaeth-benodol. Byddai cyflawni hyn, ynghyd â datrys yr heriau posibl, efallai yn gofyn am ddull hyblyg o ddylunio cymwysterau, er enghraifft trwy archwilio a allai ysgolion ddatblygu eu tasgau asesu eu hunain sy'n cael eu dilysu gan gorff dyfarnu. Byddai mabwysiadu'r cynnig hwn yn golygu ein bod yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i archwilio'r gwahanol opsiynau ar gyfer sut y gellid gwneud i'r math hwn o gymhwyster weithio. Yna byddem yn profi cynigion a'r galw posibl am y cymhwyster trwy ymwneud pellach ag ysgolion.

Bydd y gwaith ychwanegol sydd ei angen i archwilio'r gwahanol ffyrdd y gallai cymhwyster o'r math hwn gael ei ddylunio a'i ddarparu'n hyfyw yn cymryd amser. Hyd yn oed os llwyddwn i ddod o hyd i ddull sy'n gweithio, mae'n annhebygol y bydd y cymhwyster newydd yn barod i'w ddysgu erbyn Medi 2025. Mae siawns hefyd na allwn gytuno ar ddull sy'n gweithio. Er y byddai cymhwyster o'r math hwn yn fuddiol i ysgolion a dysgwyr, ni fyddai'n hanfodol. Os nad oes posib datblygu'r math hwn o gymhwyster – naill ai o gwbl neu mewn pryd i 2025 – yna byddai ysgolion yn parhau i fod yn gallu dylunio a chyflawni eu Cwricwlwm Ysgol yn unol â'r Fframwaith Cwricwlwm.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

1. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i adolygu a diwygio TGAU mewn Busnes, Daearyddiaeth, Hanes ac Astudiaethau Crefyddol?**
2. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol, os yw'n ymarferol bosib?**
3. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU integredig newydd yn y Dyniaethau, os yw'n ymarferol bosib?**



4. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Canllawiau Cwricwlwm[29]

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ('Maes') yn canolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau mewn Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol,[30] yn ogystal ag mewn llenyddiaeth.

Y pedwar Datganiad o'r Hyn Sy'n Bwysig yn y Maes hwn[31] yw:

1. *Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd*
2. *Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch*
3. *Mae mynegi ein hunain trwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu*
4. *Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd*

Mae Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2020[32] yn nodi bod dysgu Cymraeg a Saesneg yn orfodol hyd at 16 oed.

Mae'r Canllawiau Cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn yn cynnwys cyfres ar wahân o ddisgwyliadau ar gyfer y cynnydd y mae disgwyl i ddysgwyr ei wneud yn eu dysgu Cymraeg os ydynt yn astudio mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg[33] . Disgwylir i ddysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog[34] wneud yr un lefel o gynnydd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Y ddarpariaeth gyfredol

Yn y Maes hwn ar hyn o bryd, mae TGAU 'gwneud-i-Gymru' ar gael i ysgolion yn y canlynol:

- Cymraeg Iaith
- Cymraeg Ail Iaith
- Llenyddiaeth Gymraeg
- Saesneg Iaith
- Llenyddiaeth Saesneg

Mae dysgwyr mewn cyd-destunau Cymraeg a dwyieithog fel arfer yn cymryd pedwar TGAU yn y Maes hwn: Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg. Mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg mae dysgwyr fel arfer yn cymryd tri TGAU yn y Maes hwn: Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg a Chymraeg Ail Iaith.

29 Mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn gosod mewn mwy o fanylder yr hyn y dylai Cwricwlwm Ysgol ei gynnwys mewn perthynas â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, elfennau gorfodol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Am esboniad pellach gweler tud. 6

30 Mae ieithoedd rhyngwladol yn y Canllawiau Cwricwlwm yn cyfeirio at ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg a ddysgir yn yr ysgol; gall y rhain gynnwys ieithoedd cymunedol, ieithoedd modern, ieithoedd clasurol ac Iaith Arwyddion Prydain.

31 Yma, rydym wedi rhestru penawdau'r Datganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig ym mhob Maes. Disgrifir pob datganiad yn llawnach yn y Canllawiau Cwricwlwm.

32 I gael mwy o wybodaeth am y bil, ewch i https://llyw.cymru/bil-cwricwlwm-ac-asesu-cymru

33 Rydym yn defnyddio 'cyd-destunau cyfrwng Saesneg' i olygu ysgolion, lleoliadau a ffrydiau cyfrwng Saesneg. Yn nodweddiadol, mae dysgwyr yn y cyd-destunau hyn yn derbyn y rhan fwyaf o'u haddysg yn Saesneg, gyda'r Gymraeg yn cael ei dysgu fel pwnc yn hytrach na'i defnyddio fel iaith ddysgu.

34 Rydym yn defnyddio ' Cyd-destunau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ' i olygu ysgolion, lleoliadau neu ffrydiau Cymraeg a dwyieithog. Mae dysgwyr yn y cyd-destunau hyn fel rheol yn derbyn eu haddysg yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar gyfer ieithoedd rhyngwladol, gall ysgolion ddewis o blith TGAU 'gwneud-i-Gymru' yn y canlynol:

Ffrangeg
Almaeneg
Sbaeneg

Mae cymwysterau yn Saesneg a Chymraeg ar gael ar Lefel Mynediad a Lefel 1[35] ar gyfer dysgwyr na allant gael mynediad i TGAU. Mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd y cymwysterau hyn yn fach iawn[36] .

Mae cymwysterau TGAU iaith rhyngwladol a ddyluniwyd ar gyfer Lloegr ar gael yn:

Arabeg	Bengali	Hebraeg Beiblaidd
Tsieinëeg	Groeg Clasurol	Groeg
Gwjarati	Eidaleg	Japaneg
Lladin	Hebraeg Modern	Panjabi
Persieg	Portiwgaleg	Pwyleg
Rwseg	Twrceg	Wrdw

Er bod yr holl TGAU ieithoedd rhyngwladol hyn ar gael i ysgolion yng Nghymru ddewis ohonynt, nid yw pob un yn cael ei gynnig na'i gymryd gan ddysgwyr yng Nghymru. Dim ond trwy'r Saesneg y mae'r cymwysterau hyn ar gael (ac eithrio Lladin, sydd ar gael trwy'r Gymraeg a'r Saesneg).

Yn ogystal â chymwysterau TGAU mewn ieithoedd rhyngwladol, gall ysgolion ddewis o ystod o gymwysterau Llwybrau Ieithoedd. Mae'r rhain yn gymwysterau unedol, wedi'u seilio ar gredyd a gellir eu cyfuno'n hyblyg i ddiwallu anghenion gwahanol ddysgwyr. Fe'u hasesir trwy bortffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol gan athrawon a'i ddilysu'n allanol gan gorff dyfarnu. Mae'r cymwysterau hyn ar gael o Lefel Mynediad i Lefel 2 y Fframwaith Credyd a Chymwysterau ar gyfer Cymru[37] yn yr ieithoedd canlynol:

Ffrangeg	Eidaleg	Mandarin
Almaeneg	Japaneg	Sbaeneg

35 Mae'r Fframwaith Credyd a Chymwysterau ar gyfer Cymru yn disgrifio'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n cwmpasu ystod eang o gymwysterau ar draws pob lefel o'r camau cychwynnol (Lefel Mynediad) i'r rhai mwyaf datblygedig (Lefel 8 e.e. Doethuriaeth). Ei nod yw helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dysgu a'u cyfleoedd dilyniant posibl.

36 Yn 2018/19 dim ond pedwar o'r cymwysterau Lefel Mynediad a Lefel 1 hyn a ddyfarnwyd i fwy na 100 o ddysgwyr yng Nghymru. Y mwyaf a ddyfarnwyd o'r cymwysterau hyn oedd Tystysgrif Lefel Mynediad CBAC yn Saesneg, a ddyfarnwyd i 600 o ddysgwyr. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2018/19) data WED / PLASC.

37 Mae'r Fframwaith Credyd a Chymwysterau ar gyfer Cymru yn disgrifio'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n cwmpasu ystod eang o gymwysterau ar draws pob lefel o'r camau cychwynnol (Lefel Mynediad) i'r rhai mwyaf datblygedig (Lefel 8 e.e. Doethuriaeth). Ei nod yw helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dysgu a'u cyfleoedd dilyniant posibl.

Mae Iaith Arwyddion Prydain (BSL) hefyd wedi'i chynnwys yn y Maes hwn. Ar hyn o bryd, gall ysgolion a dysgwyr ddewis o ystod o gymwysterau sy'n amrywio o Lefel Mynediad i Lefel 2[38].

Mae'r nifer sy'n manteisio ar ieithoedd rhyngwladol wedi bod yn gostwng yn gyson yng Nghymru ers sawl blwyddyn[39] . Adroddwyd bod sawl ffactor yn cyfrannu at y dirywiad hwn, gan gynnwys:

- gostyngiad yn yr amser sydd ar gael ar gyfer dysgu ieithoedd mewn ysgolion
- canfyddiad bod ieithoedd yn anoddach na phynciau eraill ac yn addas ar gyfer dysgwyr mwy galluog yn unig
- anawsterau recriwtio a chadw athrawon ieithoedd
- penderfyniad gwledydd y DU i adael yr UE (Brexit).

Mewn ymateb i'r heriau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi creu menter Dyfodol Byd-eang gyda'r nod o 'Gynyddu nifer y dysgwyr ifanc sy'n astudio ieithoedd ar bob lefel ac ar draws pob sector'[40]. Mae hyrwyddo a chodi proffil ieithoedd rhyngwladol yn TGAU a thu hwnt yn faes blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae'r Canllawiau Cwricwlwm hefyd yn ceisio ailfywiogi astudio ieithoedd. Cyflwynir ein cynigion gyda bwriad tebyg.

Cipolwg ar gynigion

Er mwyn llunio'r ystod o gymwysterau sydd ar gael yn y Maes hwn, rydym yn cynnig:

1. Creu TGAU Saesneg iaith a llenyddiaeth gyfun newydd a TGAU Cymraeg iaith a llenyddiaeth gyfun newydd i ddisodli'r cymwysterau TGAU presennol sy'n cael eu cynnig ar wahân. Byddai'r cymwysterau TGAU cyfun newydd hyn oddeutu maint 1½ TGAU.

2. Cael gwared â TGAU Cymraeg Ail Iaith a chreu TGAU newydd, mwy o faint wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg sy'n adlewyrchu disgwyliadau'r Canllawiau Cwricwlwm. Byddai'r cymhwyster newydd oddeutu maint 1½ TGAU.

3. Creu cyfres o gymwysterau bach sgiliau iaith Cymraeg y gellir eu cymryd yn ychwanegol at TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd y continwwm dysgu Cymraeg.

4. Adolygu a diwygio TGAU 'gwneud-i-Gymru' mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

5. Creu cyfres o gymwysterau bach 'gwneud-i-Gymru' mewn ystod o ieithoedd rhyngwladol i gefnogi ymgysylltiad a dilyniant mewn dysgu iaith.

6. Sicrhau y gall dysgwyr ac ysgolion barhau i gael mynediad at ystod o gymwysterau Iaith Arwyddion Prydain, gan gynnwys unrhyw TGAU newydd a ddatblygwyd ar gyfer dysgwyr yn Lloegr.

38 Yn 2018/19, enillodd llai na deg dysgwr gymhwyster mewn BSL yng Nghymru. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2018/9). Data WED / PLASC

39 Ers 2010, mae cofrestriadau TGAU wedi gostwng 48%. Mae'r data'n dangos dirywiad o 56% yn Ffrangeg, 65% yn Almaeneg ac 16% yn Sbaeneg. Ffynhonnell: https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/language_trends_report_final.pdf

40 Dyfodol Byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2020 i 2022 [HTML] | GOV.WALES

Bydd cymwysterau mewn disgyblaethau sy'n gysylltiedig â'r Maes hwn yn parhau i fod ar gael i ysgolion a dysgwyr, ar yr amod eu bod yn cwrdd â'n hegwyddorion arweiniol ac nad ydynt yn dyblygu'r prif gymwysterau 'gwneud-i-Gymru' o fewn y Maes.

Y meddwl y tu ôl i'r cynigion

1. ***Creu TGAU Saesneg iaith a llenyddiaeth gyfun newydd a TGAU Cymraeg iaith a llenyddiaeth gyfun newydd i ddisodli'r cymwysterau TGAU presennol sy'n cael eu cynnig ar wahân. Byddai'r cymwysterau TGAU cyfun newydd hyn oddeutu maint 1½ TGAU.***

Rydym yn cynnig disodli'r pedwar TGAU presennol (Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Gymraeg a Llenyddiaeth Saesneg) gyda dau TGAU cyfun, Cymraeg iaith a llenyddiaeth ynghyd â Saesneg iaith a llenyddiaeth.

Byddai creu iaith a llenyddiaeth gyfun TGAU yn y Maes hwn yn helpu i sicrhau darpariaeth deg i ddysgwyr o fewn ac ar draws ysgolion ac yn cynnig mwy o hyblygrwydd i ddysgwyr gael mwy o ddewis ynghylch pa gymwysterau eraill y maent am eu hastudio.

Mewn rhai ysgolion, dim ond fel pynciau dewisol y cynigir cymwysterau llenyddiaeth TGAU yn unig[41] . O ystyried y ffocws ar baratoi ar gyfer cymwysterau ym mlynyddoedd 10 ac 11, mae'n ymddangos nad yw rhai dysgwyr yn astudio llenyddiaeth y tu hwnt i 14 oed. Byddai llenyddiaeth a chymwysterau iaith cyfun yn atal hyn rhag digwydd.

Diwygiwyd y TGAU iaith a llenyddiaeth Cymraeg a Saesneg cyfredol i'w haddysgu gyntaf yn 2015. Bwriad rhai o'r newidiadau oedd gwneud manylebau'r Gymraeg a'r Saesneg yn fwy tebyg, er bod rhai gwahaniaethau yn parhau. Gwnaed rhai newidiadau sylweddol i'r TGAU iaith, megis cael gwared ar yr elfen gwaith cwrs. Mewn cymhariaeth, ychydig iawn a newidiodd yn llenyddiaeth TGAU: mae gwaith cwrs yn parhau, ac mae'n ofynnol o hyd i ddysgwyr astudio llawer o'r un testunau penodol ag o'r blaen. Mae athrawon wedi dweud wrthym yr hoffent weld cynnwys y cymwysterau hyn yn cael eu hadnewyddu i'w gwneud yn fwy deniadol a pherthnasol; mae hyn yn arbennig o wir am gynnwys llenyddiaeth TGAU.

Mae'r manylebau TGAU cyfredol yn cydnabod bod gorgyffwrdd rhwng astudio iaith ac astudio llenyddiaeth, ac yn mynd ati i annog dysgwyr ac athrawon i wneud cysylltiadau ar eu traws. Bydd cyfuno iaith a llenyddiaeth mewn un cymhwyster yn creu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr wneud cysylltiadau rhwng y ddwy a bydd yn helpu i gyfoethogi'r astudiaeth o'r ddwy elfen. Bydd hefyd yn caniatáu i ddysgwyr hyd at 16 oed ymgysylltu â phob un o'r pedwar Datganiad o'r Hyn Sy'n Bwysig yn y Maes hwn yn gyfartal, fel y rhagwelir yn y Canllawiau Cwricwlwm.

41 Yn 2018 roedd 14% yn llai o gynigion ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg nag Iaith Saesneg a 32% yn llai o gynigion ar gyfer Llenyddiaeth Gymraeg nag Iaith Gymraeg. Ffynhonnell: Cymwysterau Cofrestriadau Cymru / Dros Dro Haf 2018 ar gyfer Cymru: TGAU, UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau, a thystysgrifau Lefel 1 / Lefel 2]

Os mabwysiadwn y cynnig hwn, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion ar gyfer cynnwys y cymwysterau newydd. Bydd cwestiynau ynghylch dylunio asesiad hefyd i'w hystyried. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar yr agweddau hyn cyn cytuno ar ddyluniad terfynol y cymwysterau.

Byddwn yn dylunio'r cymwysterau newydd i fod yn hygyrch i'r un ystod o ddysgwyr â'r TGAU iaith a llenyddiaeth presennol[42] . Ar hyn o bryd, mae gan TGAU llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg asesiadau fesul haen, sy'n golygu bod dysgwyr yn sefyll naill ai arholiadau haen uwch neu haen sylfaenol. Nid yw TGAU iaith yn haenog, sy'n golygu bod pob dysgwr yn sefyll yr un arholiadau. Rhagwelwn na fydd y cymwysterau newydd yn haenog.

O ran maint, bydd angen i TGAU llenyddiaeth ac iaith gyfun fod yn fwy na'r naill neu'r llall o'r TGAU sengl y mae'n eu disodli. Bydd y maint cynyddol hwn yn sicrhau bod y ddwy elfen yn cael eu cynnwys yn ddigonol. Rhagwelwn y bydd y cymwysterau newydd oddeutu maint 1½ TGAU.

Dylai fod yn bosibl eu dylunio yn y fath fodd fel eu bod yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i astudio naill ai iaith neu lenyddiaeth ar gyfer Safon Uwch.

Byddwn yn archwilio sut y gellid cysylltu'r cymwysterau newydd â fframwaith cyfeirio iaith a gydnabyddir yn rhyngwladol fel y CEFR[43] , fel y gall dysgwyr weld sut mae eu cyflawniadau yn gysylltiedig â chymwysterau iaith eraill.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi cwestiynu a yw'n bosibl neu'n ddymunol cyfuno astudio iaith a llenyddiaeth. Yn rhyngwladol, mae'n gyffredin i gymwysterau a gymerir yn 16 oed ac ôl-16 gyfuno iaith a llenyddiaeth. Er enghraifft, mae awdurdodaethau sy'n perfformio'n dda fel Seland Newydd, Iwerddon, yr Alban a De Cymru Newydd i gyd yn cyfuno iaith a llenyddiaeth o fewn cymwysterau sengl ac yn dangos perfformiad cryfach mewn asesiadau darllen PISA na Chymru.[44] [45]

Os caiff ei fabwysiadu, gallai'r cynnig hwn gael effaith bosibl ar ddysgwyr ôl-16 sy'n ail-sefyll eu TGAU Saesneg neu Gymraeg. Bydd angen mwy o amser i astudio ac addysgu ar gyfer cymwysterau TGAU mwy. Gallai hyn effeithio ar lwyth gwaith dysgwyr, yn ogystal ag ar staffio a chyllid ar gyfer darparwyr ôl-16. Gall cynnwys ehangach y TGAU newydd arfaethedig olygu y byddai'n well gan rai dysgwyr ôl-16 sy'n edrych i ddangos eu sgiliau llythrennedd a chyfathrebu gymryd cymwysterau amgen. Bydd angen ystyried yr effaith bosibl ar Raglenni Maes Dysgu hefyd. Byddwn yn ystyried yr effeithiau hyn yn ofalus a'r ffyrdd y gellid eu lliniaru wrth ddatblygu'r TGAU arfaethedig newydd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar y dewis o gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16.

42 Byddai'r cymhwyster Cymraeg wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng a dwyieithog Cymraeg. Mae gennym gynnig ar wahân ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg.

43 Mae'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR) yn safon ryngwladol ar gyfer disgrifio gallu iaith. Mae'n disgrifio chwe cham eang o hyfedredd iaith a chyfathrebu sy'n caniatáu mesur cynnydd dysgwyr ar bob cam. Disgrifir y camau gan ddefnyddio datganiadau 'gallu gwneud' ac fe'u cynlluniwyd i helpu dysgwyr i gydnabod ac olrhain eu datblygiad eu hunain, yn ogystal â chefnogi ymarferwyr, llunwyr polisi a chyrff dyfarnu i ddatblygu cyrsiau, deunyddiau ac asesiadau.

44 Schleicher, A (2019). *Pisa 2018 Insights and interpretations.* Ar gael oddi wrth: https://www.oecd.org/pisa/PISA%202018%20Insights%20and%20Interpretations%20FINAL%20PDF.pdf

45 Cyngor Ymchwil Addysgol Awstralia (2019) *PISA 2018 Reporting Australia's results Volume 1 Student performance.* Ar gael o https://research.acer.edu.au/cgi/viewcontent.cgi?article=1035&context=ozpisa

2. ***Rhoi'r gorau i TGAU Cymraeg Ail Iaith a chreu TGAU newydd, mwy o faint wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg. Byddai'r cymhwyster newydd oddeutu maint 1½ TGAU.***

Rydym yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru o gael gwared ar Cymraeg Ail Iaith a sefydlu un continwwm ar gyfer dysgu a dysgu Cymraeg ('continwwm Cymraeg'). Mae Llywodraeth Cymru eisiau gweld mwy o ddysgwyr yn gadael addysg orfodol fel defnyddwyr hyderus o'r Gymraeg ac mae wedi nodi ei gweledigaeth yn ei strategaeth Gymraeg, Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg[46] .

Mae'r Canllawiau Cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn yn cynnwys dwy gyfres o ddisgwyliadau ar gyfer y cynnydd y mae disgwyl i ddysgwyr ei wneud yn eu dysgu Cymraeg. Un ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau Cymraeg a dwyieithog ac un arall ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r gwahaniaeth o ran pa mor gyflym y bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu iaith yn dibynnu a ydynt yn derbyn y rhan fwyaf o'u haddysg trwy'r Saesneg neu'r Gymraeg. Mae perthynas glir rhwng y ddwy set o ddisgwyliadau, gan adlewyrchu'r syniad o un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg yn sefyll TGAU Cymraeg Ail Iaith. Cyflwynwyd y cymhwyster diwygiedig hwn ar gyfer ei addysgu o fis Medi 2017 i ddisodli'r cyrsiau llawn a byr blaenorol yn TGAU Cymraeg Ail Iaith a TGAU Cymraeg Cymhwysol[47]. Mae'r TGAU newydd wedi symud i ffwrdd o brofi ymadroddion a geirfa ar gof ac yn rhoi mwy o bwyslais ar allu dysgwyr i gyfathrebu'n effeithiol a sgwrsio'n ddigymell. Mae'r newidiadau hyn yn mynd i'r afael ag argymhellion adolygiad annibynnol o'r cymhwyster etifeddiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[48] .

Mae ysgolion wedi addasu'n dda i ofynion cynyddol y TGAU newydd ac roedd y canlyniadau cyntaf yn haf 2019 yn galonogol. Mae cael gwared ar y cwrs byr wedi arwain at gynnydd o bron i 60% yn nifer y dysgwyr sy'n dilyn y cwrs llawn, i fyny o 12,296 yn 2017 i 19,509 yn 2019[49] . Mae hyn yn golygu bod llawer mwy o ddysgwyr bellach yn elwa o ddilyn TGAU cwrs llawn cryfach sy'n cynnig cwrs dysgu mwy heriol a gwerth chweil.

O siarad ag athrawon a rhanddeiliaid eraill, rydym yn gwybod bod sawl her i wella cyrhaeddiad dysgwyr mewn Cymraeg ynghyd ag ymwneud â'r iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn aml, ni phenodir digon o amser i addysgu a dysgu Cymraeg a fyddai'n caniatáu i ddysgwyr wneud cynnydd cyson, fel y cydnabyddir yn ymchwil ac adroddiadau rhanddeiliaid allweddol[50] . Mae diffyg cyfle i ymarfer a datblygu eu sgiliau yn golygu bod gan lawer o ddysgwyr ddiffyg hyder wrth siarad Cymraeg, a gall hyn rwystro eu dysgu. Ar draws y system, mae angen athrawon â chymwysterau mwy addas mewn

46 Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg (https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf)

47 Mae TGAU cwrs byr hanner maint TGAU gradd unigol. Gellir eu cymharu o ran lefel anhawster a defnyddir yr un raddfa raddio.

48 Llywodraeth Cymru, Adran addysg a sgiliau (2013). *Un Iaith i Bawb: Adolygiad o Gymraeg Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4*. Ar gael oddi wrth: https://llyw.cymru/adolygiad-o-gymraeg-ail-iaith-yng-nghyfnodau-allweddol-3-4-adroddiad-terfynol

49 Ffynhonnell: Examination results - JCQ Joint Council for Qualifications

50 Llywodraeth Cymru, yr Adran Addysg a Sgiliau, (2013), *Un iaith i bawb - Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.* Ar gael oddi wrth: https://llyw.cymru/adolygiad-o-gymraeg-ail-iaith-yng-nghyfnodau-allweddol-3-4-adroddiad-terfynol

ysgolion i gyflwyno mwy o ddysgu Cymraeg. Gellid cyfleu manteision siarad Cymraeg a bod yn amlieithog yn ehangach ac yn fwy effeithiol i bob dysgwr. Ni all penderfyniadau ynghylch pa gymwysterau i'w cynnig a sut y dylid eu cynllunio a'u hasesu fynd i'r afael â'r heriau hyn ynddynt eu hunain, ond gallant helpu i gyfrannu at weithredu cenedlaethol gyda'r nod o gyflawni nodau polisi tymor hwy Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Gan weithio gyda rhanddeiliaid, rydym wedi ystyried sawl opsiwn posibl ar gyfer dileu ac ailosod y TGAU Cymraeg Ail Iaith cyfredol. Rydym wedi dod at gynnig sy'n adeiladu ar gryfder a llwyddiant y cymhwyster cyfredol ac sy'n cynnig dewis teg i bob dysgwr ym mhob cyd-destun.

Ni fydd y cymhwyster newydd yn cael ei alw'n Gymraeg Ail Iaith er mwyn adlewyrchu'r ffaith y bydd yn sylweddol wahanol i'r cymhwyster presennol sy'n dwyn yr enw hwnnw. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar deitl priodol ar ei gyfer.

Caiff y cymhwyster ei ddylunio i fod yn gyfartal o ran maint â'r TGAU iaith a llenyddiaeth gyfun arfaethedig yn Gymraeg a Saesneg. Disgwyliwn y bydd hyn tua maint 1½ TGAU. Bydd hyn yn cynnig cydraddoldeb darpariaeth i bob dysgwr ym mhob cyd-destun.

Bydd y cymhwyster yn cael ei fapio ar fframwaith cyfeirio iaith a gydnabyddir yn rhyngwladol fel y CEFR[51], fel y gall dysgwyr weld sut mae eu cyflawniadau yn gysylltiedig â chymwysterau iaith eraill, gan gynnwys cymwysterau Cymraeg ôl-16.

Bydd creu cymhwyster mwy na'r TGAU Cymraeg Ail Iaith cyfredol yn annog ysgolion i roi mwy o amser i ddysgu Cymraeg a chael profiadau yn yr iaith. Byddai hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr gyrraedd lefel hyfedredd uwch ac yn caniatáu i'r cymhwyster newydd asesu cynnwys mwy heriol na'r cymhwyster cyfredol. Gallai hyn oll helpu i gyflawni nod polisi Llywodraeth Cymru o gynyddu cyfran y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol fel defnyddwyr hyderus o'r Gymraeg.

Wrth ddatblygu'r cynnig hwn, gwnaethom ystyried a thrafod sawl dull posibl gyda rhanddeiliaid. Mae rhai wedi galw am gymhwyster TGAU cyfannol newydd i ddisodli'r cymwysterau TGAU Cymraeg a TGAU Cymraeg Ail Iaith presennol. Ar ôl edrych yn ofalus ar y syniad hwn daethom i'r casgliad n fyddai'n bosibl ar hyn o bryd i ddylunio un TGAU (neu unrhyw gymhwyster arall) a allai asesu'r holl ddysgwyr yn deg ac yn ddibynadwy ym mhob cyd-destun. O ran dyluniad asesu, mae graddfa'r gwahaniaeth rhwng disgwyliadau'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg ac ar gyfer y rhai mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn rhy fawr i'w cynnwys o fewn un cymhwyster. Byddai hefyd yn annheg ei gwneud yn ofynnol i bob dysgwr sefyll yr un cymhwyster oherwydd byddai dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg fel arfer yn derbyn graddau is na'u cyfoedion mewn cyd-destunau Cymraeg a dwyieithog. Byddai hyn yn cael yr effaith o ddadysgogi ac ymddieithrio dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

51 Mae'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR) yn safon ryngwladol ar gyfer disgrifio gallu iaith. Mae'n disgrifio chwe cham eang o hyfedredd iaith a chyfathrebu sy'n caniatáu mesur cynnydd dysgwyr ar bob cam. Disgrifir y camau gan ddefnyddio datganiadau 'gallu gwneud' ac fe'i cynlluniwyd i helpu dysgwyr i gydnabod ac olrhain eu datblygiad eu hunain, yn ogystal â chefnogi ymarferwyr, llunwyr polisi a chyrff dyfarnu i ddatblygu cyrsiau, deunyddiau ac asesiadau.

Rydym yn gwybod y bydd y cynnig hwn, i rai rhanddeiliaid, yn ymddangos yn rhy debyg i'r sefyllfa bresennol, ac y gallai gael ei weld fel Cymraeg Ail Iaith mewn enw arall. Er hyn, credwn y byddai'n newid sylweddol i ysgolion ac yn gam arwyddocaol i'r cyfeiriad cywir o ran helpu dysgwyr i ddatblygu'n ddefnyddwyr Cymraeg hyderus. Os byddwn yn derbyn y cynnig, byddwn yn parhau i adolygu'r achos dros gynnig mwy nag un TGAU Cymraeg. Wrth wneud hyn, byddwn yn ystyried polisi Llywodraeth Cymru ac unrhyw newidiadau ehangach i'r system, gan gynnwys newidiadau yng nghapasiti dysgu Cymraeg a chyrhaeddiad dysgwyr. Rydym yn parhau'n agored i'r posibilrwydd o gyflwyno cymhwyster TGAU Cymraeg sengl yn y dyfodol.

Ar ôl asesu effaith bosibl ein cynnig, rydym o'r farn y bydd yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar y Gymraeg. Bydd yn golygu y bydd gan bob dysgwr yng Nghymru, ym mhob cyd-destun, fynediad at gymwysterau Cymraeg o'r un maint a statws sy'n adlewyrchu'n briodol y lefel hyfedredd y mae disgwyl iddynt ei chyflawni.

Wrth ddatblygu a chyflwyno'r cymhwyster newydd, byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y cymhwyster yn parhau i fod yn gefnogol i bolisi un continwwm, ac yn cyd-fynd yn agos â'r polisi.

Byddwn hefyd yn ystyried sut y gall cynnwys ac asesiad y cymhwyster newydd gefnogi dysgwyr sydd am barhau i astudio ac ymgysylltu â'r Gymraeg ar ôl 16 oed. Bydd hyn yn cynnwys edrych a all fod angen newidiadau i'r cymwysterau UG a Safon Uwch cyfredol mewn Cymraeg Ail Iaith a Chymraeg. Byddwn hefyd yn edrych ar sut y byddai'r cymwysterau newydd yn cysylltu â chymwysterau Cymraeg ôl-16 eraill, gan gynnwys fframwaith cymwysterau Cymraeg i Oedolion.

3. ***Creu cyfres o gymwysterau bach sgiliau iaith Cymraeg y gellir eu cymryd yn ychwanegol at TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd y continwwm Cymraeg.***

Yn wahanol i'r TGAU Cymraeg newydd arfaethedig, byddai'r cymwysterau hyn yn canolbwyntio ar sgiliau iaith penodol, megis darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad, heb geisio ymwneud â'r holl Ddatganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig ar gyfer y Maes hwn.

Byddai'r rhain yn gymwysterau bach, uned sengl, wedi'u cynllunio i'w cymryd gan ddysgwyr ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU Cymraeg newydd arfaethedig. Gellid eu cymryd i gefnogi dilyniant ar hyd continwwm Cymraeg.

Mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg gallent gynorthwyo dysgwyr i gryfhau sgiliau Cymraeg penodol, gan helpu i gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Byddai asesiad cam wrth gam a hydrin yn cynnig adborth rheolaidd i ddysgwyr ar eu llwyddiant ynghyd â meysydd i'w gwella, gan eu helpu i weld y cynnydd y maent yn ei wneud. Ar ben hynny, gallai'r manteision hyn helpu i wella eu cyrhaeddiad pa bynnag gymhwyster TGAU Cymraeg y maent yn ei gymryd.

Gallai ysgolion ddefnyddio'r cymwysterau hyn i helpu i fesur cynnydd dysgwyr ac o bosibl helpu i benderfynu pa TGAU Cymraeg y dylai dysgwr ei gymryd.

Gallai'r cymwysterau hyn helpu i gefnogi dilyniant i ddysgwyr sydd eisiau parhau i astudio'r Gymraeg y tu hwnt i 16. Gallent hefyd fod ar gael i ddysgwyr ôl-16 sy'n awyddus i ddatblygu eu Cymraeg yn ogystal â bod ar gael mewn lleoliadau Addysg Bellach.

Gallai canlyniadau'r cymwysterau arfaethedig hyn helpu i ddisgrifio proffil iaith dysgwyr, gan nodi lefel eu hyfedredd mewn darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando. Dylai'r cymwysterau gael eu mapio o fewn fframwaith cyfeirio iaith a gydnabyddir yn rhyngwladol fel y CEFR[52] , fel y gall dysgwyr weld sut mae eu cyflawniadau yn gysylltiedig â chymwysterau Cymraeg eraill, gan gynnwys y TGAU Cymraeg newydd arfaethedig a chymwysterau Cymraeg ôl-16. Dylai hyn gefnogi ac annog mwy o ddysgwyr i barhau i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg ar ôl 16 oed. Mae defnyddio'r CEFR hefyd yn helpu i gysylltu cyflawniad mewn un iaith â chyflawniad mewn ieithoedd eraill ac i annog dysgwyr i gyfri eu hunain yn amlieithog.

Rydym eisiau i'r cymwysterau newydd wneud defnydd effeithiol o dechnoleg ddigidol i helpu i wneud yr asesiad yn fwy deniadol i ddysgwyr ac yn fwy hylaw i ysgolion. Gallai technoleg ddigidol hefyd helpu i wneud y cymwysterau hyn yn hyblyg i'w cyflawni, gydag asesiad ar alw lle bo hynny'n bosibl, neu, os nad yw hyn yn bosib, trwy gyfleoedd asesu rheolaidd.

Os mabwysiadwn y cynnig hwn, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r dyluniad manwl, gan gynnwys mynd i'r afael â'r cwestiynau o'u maint a'u dulliau asesu wrth ymgynghori ymhellach. I ddechrau, byddem yn canolbwyntio ar greu un neu ddau o gymwysterau yn unig, i helpu i dreialu'r dull gweithredu a chytuno ar ddyluniad fyddai'n hylaw ar gyfer ysgolion ac sy'n hyfyw yn gyffredinol. Gellid datblygu a chyflwyno'r gyfres lawn o gymwysterau llai yn hwyrach na Medi 2025 heb effeithio ar allu ysgolion i ddylunio a mabwysiadu eu Cwricwlwm Ysgol[53] eu hunain.

4. Adolygu a diwygio TGAU 'gwneud-i-Gymru' mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg

Byddai'r cynnig hwn yn rhoi dewis i ysgolion o TGAU diwygiedig yn y tair iaith ryngwladol a addysgir fwyaf yng Nghymru.

Mae adborth gan randdeiliaid yn awgrymu bod achos dros ailwampio sylweddol o ran cynnwys ac asesiad y TGAU cyfredol 'gwneud-i-Gymru' yn yr ieithoedd hyn. Mae'r dull o ymdrin ag ieithoedd rhyngwladol a ddisgrifir yn y Canllawiau Cwricwlwm hefyd yn awgrymu bod achos dros ailystyried y model ar gyfer dysgu ac asesu ieithoedd.

52 Mae'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR) yn safon ryngwladol ar gyfer disgrifio gallu iaith. Mae'n disgrifio chwe cham eang o hyfedredd iaith a chyfathrebu sy'n caniatáu mesur cynnydd dysgwyr ar bob cam. Disgrifir y camau gan ddefnyddio datganiadau 'gallu gwneud' ac fe'u cynlluniwyd i helpu dysgwyr i gydnabod ac olrhain eu datblygiad eu hunain, yn ogystal â chefnogi ymarferwyr, llunwyr polisi a chyrff dyfarnu i ddatblygu cyrsiau, deunyddiau ac asesiadau.

53 Pan ddaw Cwricwlwm i Gymru i rym bydd gofyn i bob ysgol greu ei Chwricwlwm Ysgol ei hun gan ddilyn Canllawiau Cwricwlwm Llywodraeth Cymru. Gweler tud. 6 am fwy o fanylion.

Mae llawer wedi cael ei gofnodi am y dirywiad dros amser sydd wedi bod yn nifer y dysgwyr sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol hyd at 16. Mae rhai heriau ychwanegol y mae ysgolion yn eu hwynebu wrth wyrdroi'r duedd hon yn cynnwys:

- prinder athrawon cymwys ar gyfer ieithoedd heblaw Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg
- lleihad yn y galw gan ddysgwyr gan ei gwneud yn llai hyfyw i ysgolion gynnal adrannau dysgu iaith
- costau asesu cymharol uchel fesul ymgeisydd ar gyfer cyrff dyfarnu

Bydd parhau i gynnig dewis o TGAU diwygiedig mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg i ysgolion yn adeiladu ar y capasiti a'r cymhwysedd presennol yn y system i ddysgu'r ieithoedd hyn. Mae hefyd yn cynnig cyfle i ailfeddwl yn sylfaenol sut mae cymwysterau TGAU iaith yn cael eu cynllunio a'u hasesu.

Byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr i sicrhau bod y cymwysterau newydd yn fwy hygyrch, perthnasol, deniadol ac apelgar. Wrth wneud hynny byddwn yn sicrhau eu bod yn parhau i gynrychioli cyflawniad ystyrlon ac yn cefnogi dilyniant i'r dysgwyr hynny sydd am fynd ymlaen i astudio'r ieithoedd hyn ar gyfer UG a Safon Uwch. Gallai cyflwyno gwell defnydd o dechnoleg ddigidol i wella caffael ac asesu iaith hefyd gael effaith gadarnhaol ar ganfyddiad a phrofiad dysgu ac archwilio ieithoedd.

Dylai'r cymwysterau gael eu mapio o fewn fframwaith cyfeirio iaith a gydnabyddir yn rhyngwladol fel y CEFR[54], fel y gall dysgwyr weld sut mae eu cyflawniadau yn gysylltiedig â chymwysterau iaith eraill.

Nid yw hyfywedd TGAU ieithoedd yn her sy'n unigryw i Gymru. Mae anawsterau tebyg yn wynebu Lloegr, lle mai dim ond un corff dyfarnu sy'n cynnig mwyafrif y TGAU ieithoedd, oherwydd y niferoedd cymharol isel o ddysgwyr sy'n cymryd y cymwysterau. Ar ôl archwilio'r posibilrwydd yn ofalus, rydym wedi dod i'r casgliad na fydd cynyddu'r ystod o ieithoedd sydd ar gael fel TGAU 'gwneud-i-Gymru' yn hyfyw. Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yw'r TGAU ieithoedd rhyngwladol mwyaf ardystiedig yng Nghymru o hyd, ac mae'r niferoedd gostyngol o ddysgwyr eisoes yn peri risg bosibl i'w hyfywedd tymor hir. Ni fyddai'r galw cymharol isel am TGAU mewn ieithoedd eraill yn ddigonol i gefnogi datblygiad TGAU 'gwneud-i-Gymru' yn yr ieithoedd hynny.

Ar hyn o bryd, gall ysgolion a dysgwyr gyrchu pob TGAU sydd ar gael mewn ieithoedd rhyngwladol a ddyluniwyd ar gyfer Lloegr heblaw am Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Mae'n galonogol nodi bod bron pob un o'r cymwysterau hyn yn cael eu cymryd gan o leiaf rai dysgwyr yng Nghymru bob blwyddyn.

Byddwn yn ceisio sicrhau bod y cymwysterau hyn yn parhau i fod ar gael fel y gall ysgolion barhau i fod â'r hyblygrwydd i ddewis cymwysterau i adlewyrchu eu Cwricwlwm Ysgol a diwallu anghenion dysgwyr. Rydyn ni'n gwybod, er enghraifft, bod y cymwysterau hyn yn cynnig cyfle pwysig i ddatblygu sgiliau mewn iaith maen nhw'n ei defnyddio y tu allan i'r ysgol, a chael cydnabyddiaeth amdani.

54 Mae'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR) yn safon ryngwladol ar gyfer disgrifio gallu iaith. Mae'n disgrifio chwe cham eang o hyfedredd iaith a chyfathrebu sy'n caniatáu mesur cynnydd dysgwyr ar bob cam. Disgrifir y camau gan ddefnyddio datganiadau 'gallu gwneud' ac fe'u cynlluniwyd i helpu dysgwyr i gydnabod ac olrhain eu datblygiad eu hunain, yn ogystal â chefnogi ymarferwyr, llunwyr polisi a chyrff dyfarnu i ddatblygu cyrsiau, deunyddiau ac asesiadau.

5. Creu cyfres o gymwysterau bach 'gwneud-i-Gymru' mewn ystod o ieithoedd rhyngwladol i gefnogi ymgysylltiad a dilyniant mewn dysgu iaith.

Bydd creu ystod o gymwysterau bach ochr yn ochr â'r TGAU yn galluogi ysgolion i ddatblygu rhaglenni hyblyg o ddysgu iaith wedi'u teilwra i anghenion unigolion neu grwpiau o ddysgwyr.

Bydd y cymwysterau hyn yn cael eu cynnig mewn ystod o ieithoedd ac fe'u defnyddir i annog mwy o ddysgwyr i barhau i astudio ieithoedd rhyngwladol hyd at 16 oed, ond heb ymrwymo i TGAU llawn. Gallai'r dull hwn helpu i wyrdroi'r dirywiad yn nifer y dysgwyr sy'n astudio ieithoedd trwy roi blas iddynt o wahanol ieithoedd gan danio eu chwilfrydedd a'u brwdfrydedd dros ddysgu iaith.

Bydd cynnig cyfle i ddysgwyr astudio sawl iaith ôl-14 yn eu helpu i weld y cysylltiadau a'r cydberthynas rhwng gwahanol ieithoedd, a dysgu ohonynt. Bydd hyn yn cynnig ffordd i ysgolion alluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r Datganiad cyntaf o'r Hyn Sy'n Bwysig yn y Maes hwn ('*Mae ieithoedd yn ein cysylltu*'). Bydd hefyd yn helpu i newid canfyddiadau trwy ganiatáu i ddysgwyr weld eu hunain yn amlieithog.

Gellid cyflwyno canlyniadau fel proffil iaith i nodi cryfderau cymharol dysgwyr wrth siarad, ysgrifennu, darllen a gwrando. Gellid gwneud hyn trwy ddatganiadau cadarnhaol o'r hyn y gall dysgwr ei wneud mewn cyd-destunau amrywiol neu at ddibenion penodol. Byddai'r dull hwn yn adlewyrchu sut mae'r CEFR[55] yn disgrifio caffael iaith a byddai'n caniatáu mapio'r cymwysterau hyn yn glir i'r fframwaith hwnnw. Gallai hyn roi ymdeimlad i ddysgwyr o'r cynnydd y maent wedi'i wneud a'u helpu i ystyried sut i symud ymlaen ymhellach ac adeiladu ar eu dysgu. Mae astudio ystod ehangach o ieithoedd hefyd yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar sgiliau cyfathrebu Cymraeg, Saesneg ac amlieithog y dysgwyr[56].

Bydd yn bwysig i ysgolion barhau i gynnig y dewis i ddysgwyr gymryd TGAU iaith ryngwladol, i gefnogi dyfnder y dysgu sy'n ofynnol i symud ymlaen i astudio ar lefel UG a Safon Uwch. Ond bydd y cymwysterau llai hyn hefyd yn helpu i gefnogi dilyniant, trwy gynnig cyfle i ddysgwyr archwilio sawl iaith. Gall hyn helpu i gryfhau gafael dysgwyr ar sut mae ieithoedd yn gweithio a thanio diddordeb a allai gynnig llwybr amgen i ymgysylltu ag ieithoedd rhyngwladol ar ôl 16 oed.

Os mabwysiadwn y cynnig hwn, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion ar gyfer cynnwys ac asesu'r cymwysterau hyn. Man cychwyn defnyddiol fyddai adolygu'r cymwysterau Llwybrau Iaith presennol. Bydd hyn yn caniatáu inni adeiladu ar yr arfer dda sy'n bodoli eisoes. Byddwn yn ymgynghori ymhellach gyda rhanddeiliaid ar yr ystod arfaethedig o ieithoedd a'r dyluniadau cymwysterau cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.

55 Mae'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR) yn safon ryngwladol ar gyfer disgrifio gallu iaith. Mae'n disgrifio chwe cham eang o hyfedredd iaith a chyfathrebu sy'n caniatáu mesur cynnydd dysgwyr ar bob cam. Disgrifir y camau gan ddefnyddio datganiadau 'gallu gwneud' ac fe'u cynlluniwyd i helpu dysgwyr i gydnabod ac olrhain eu datblygiad eu hunain, yn ogystal â chefnogi ymarferwyr, llunwyr polisi a chyrff dyfarnu i ddatblygu cyrsiau, deunyddiau ac asesiadau.

56 Mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn diffinio amlieithrwydd fel yr wybodaeth, y defnydd a'r cysylltiad a wneir rhwng nifer o ieithoedd.

I ddechrau, gallem ganolbwyntio ar un neu ddwy iaith, er mwyn helpu i dreialu'r dull gweithredu a chytuno ar ddyluniad sy'n hylaw ar gyfer ysgolion ac sy'n hyfyw yn gyffredinol. Gellid datblygu a chyflwyno'r gyfres lawn o gymwysterau bach yn hwyrach na Medi 2025 heb effeithio yn y cyfamser ar allu ysgolion i ddylunio a mabwysiadu eu Cwricwlwm Ysgol eu hunain.

6. Sicrhau y gall dysgwyr ac ysgolion barhau i gael mynediad at ystod o gymwysterau Iaith Arwyddion Prydain, gan gynnwys unrhyw TGAU newydd a ddatblygwyd ar gyfer dysgwyr yn Lloegr.

Byddwn yn sicrhau y gall dysgwyr ac ysgolion barhau i ddewis o ystod o gymwysterau Iaith Arwyddion Prydain (BSL) o Lefel Mynediad i Lefel 2 y Fframwaith Credyd a Chymwysterau ar gyfer Cymru. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau i gefnogi'r rhai sy'n dechrau neu'n parhau i ddysgu BSL, yn ogystal â chymwysterau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer dysgwyr y mae BSL yn un o'u prif ieithoedd ar eu cyfer.

Ar hyn o bryd, mae'r Adran Addysg yn Lloegr yn gweithio gyda rhanddeiliaid, cyrff dyfarnu ac Ofqual (rheolydd cymwysterau Lloegr) i geisio datblygu TGAU newydd yn BSL. Rydym yn cefnogi'r datblygiad hwn yn llawn ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd. Bydd yn cymryd amser ac ymdrech i gytuno ar bwrpas a dyluniad y cymhwyster arfaethedig, a sicrhau bod y cymhwyster terfynol yn hyfyw ac yn diwallu anghenion cymaint o ddysgwyr â phosibl. Os datblygir TGAU BSL ar gyfer Lloegr, yna byddwn yn sicrhau ei fod ar gael i ddysgwyr ac ysgolion yng Nghymru.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

1. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU iaith a llenyddiaeth gyfun newydd yn Saesneg a Chymraeg i ddisodli'r cymwysterau TGAU presennol sy'n cael eu cynnig ar wahân?** Byddai'r cymwysterau TGAU cyfun newydd hyn oddeutu maint 1½ TGAU.
2. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i roi'r gorau i TGAU Cymraeg Ail Iaith a chreu TGAU newydd, mwy o faint wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg?** Byddai'r cymhwyster newydd oddeutu maint 1½ TGAU.
3. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cyfres o gymwysterau bach sgiliau iaith Cymraeg y gellir eu cymryd yn ychwanegol at TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd y continwwm Cymraeg?**
4. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i adolygu a diwygio TGAU 'gwneud-i-Gymru' yn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg?**
5. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cyfres o gymwysterau bach, 'gwneud-i-Gymru' mewn ystod o ieithoedd rhyngwladol i gefnogi ymgysylltiad a dilyniant mewn dysgu iaith?**
6. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i sicrhau y gall dysgwyr ac ysgolion barhau i gael mynediad at ystod o gymwysterau Iaith Arwyddion Prydain, gan gynnwys unrhyw TGAU newydd a ddatblygwyd ar gyfer dysgwyr yn Lloegr?**



5. Mathemateg a Rhifedd

Canllawiau Cwricwlwm[57]

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd ('Maes') yn cynnwys datblygu pum hyfedredd: dealltwriaeth gysyniadol; cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau; rhuglder; rhesymu rhesymegol a chymhwysedd strategol.

Y pedwar Datganiad o'r Hyn Sy'n Bwysig yn y Maes hwn[58] yw:

1. *Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.*
2. *Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.*
3. *Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomenau yn y byd ffisegol.*
4. *Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau'n cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.*

Darpariaeth Gyfredol

Yn y Maes hwn ar hyn o bryd, mae dau TGAU 'gwneud-i-Gymru' ar gael i ysgolion:

- TGAU Mathemateg
- TGAU Mathemateg-Rhifedd

Cyflwynwyd y cymwysterau hyn yn 2015 i ddisodli'r cymhwyster TGAU Mathemateg blaenorol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yng Nghymru yn astudio Mathemateg TGAU a Mathemateg-Rhifedd TGAU.

Mae pwyslais gwahanol ar y ddau gymhwyster. Mae TGAU Mathemateg-Rhifedd yn canolbwyntio ar y fathemateg y bydd ei hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau bob dydd, mewn byd gwaith ac mewn meysydd cwricwlwm cyffredinol eraill. Mewn cyferbyniad, mae TGAU Mathemateg yn ymestyn i agweddau ar fathemateg sy'n ofynnol ar gyfer symud ymlaen i astudiaeth wyddonol, dechnegol neu fathemategol bellach.[59]

57 Mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn gosod mewn mwy o fanylder yr hyn y dylai Cwricwlwm Ysgol ei gynnwys mewn perthynas â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, elfennau gorfodol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Am esboniad pellach gweler tud. 6

58 Yma, rydym wedi rhestru penawdau'r Datganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig ym mhob Maes. Disgrifir pob datganiad yn llawnach yn y Canllawiau Cwricwlwm.

59 https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/mathemateg-tgau/#tab_overview

Ochr yn ochr â'r TGAU 'gwneud-i-Gymru' hyn, gall ysgolion hefyd ddewis o ystod o gymwysterau eraill sy'n gysylltiedig â'r Maes hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ystadegau TGAU (cymhwyster a ddyluniwyd ar gyfer Lloegr[60], a dim ond ar gael trwy'r Saesneg).
- Mathemateg Ychwanegol CBAC Lefel 2. Cymerir y cymhwyster hwn gan oddeutu 10%[61] o'r garfan yng Nghymru bob blwyddyn ac mae'n helpu i gefnogi dilyniant i Fathemateg Lefel UG. Mae ar gael yn ddwyieithog.
- Cymwysterau o wahanol feintiau ar Lefel Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2 y Fframwaith Credyd a Chymwysterau ar gyfer Cymru[62] mewn amrywiol agweddau ar Fathemateg a Mathemateg-Rhifedd, gan gynnwys addysg ariannol. Mae rhai o'r cymwysterau hyn ar gael yn ddwyieithog, ac eraill yn Saesneg yn unig.

Cipolwg ar gynigion

Er mwyn llunio'r ystod o gymwysterau ar gyfer Mathemateg a Rhifedd, rydym yn cynnig:

1. Creu cymhwyster Mathemateg a Rhifedd TGAU cyfun newydd i ddisodli'r ddau TGAU presennol mewn Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd. Byddai'r TGAU newydd oddeutu 1½ TGAU.

2. Creu cymhwyster bach newydd y gellir ei gymryd yn ychwanegol at y TGAU i asesu hyfedredd rhifiadol dysgwr, gan ddefnyddio dull asesu ar sgrîn.

3. Creu cymhwyster Lefel 2 'gwneud-i-Gymru' mewn Mathemateg Ychwanegol.

Bydd cymwysterau mewn disgyblaethau sy'n gysylltiedig â'r Maes hwn yn parhau i fod ar gael i ysgolion a dysgwyr, ar yr amod eu bod yn cwrdd â'n hegwyddorion arweiniol ac nad ydynt yn dyblygu'r prif gymwysterau 'gwneud-i-Gymru' yn y Maes hwn.

Y meddwl y tu ôl i'r cynigion

1. Creu cymhwyster Mathemateg a Rhifedd TGAU cyfun newydd i ddisodli'r ddau TGAU presennol mewn Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd. Byddai'r TGAU newydd oddeutu 1½ TGAU.

Byddai'r cynnig hwn yn cynnig cymhwyster cyffredin i ysgolion a dysgwyr gan ddarparu sylfaen gadarn yn y Maes hwn a chefnogi dilyniant i ystod eang o lwybrau ôl-16.

60 Ers 2015 mae rhai gwahaniaethau rhwng TGAU a ddyluniwyd ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae TGAU Cymru yn parhau i gael eu graddio A *-G, mae TGAU ar gyfer Lloegr bellach wedi'u graddio 9-1, ac yng Ngogledd Iwerddon mae gradd C * newydd wedi'i chyflwyno. Mae pob TGAU yn parhau i fod yn gymharol debyg o ran maint a lefel y galw.

61 I gael mwy o wybodaeth am nifer y cofrestriadau mathemateg ychwanegol, ewch i https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/cofrestriadau-dros-dro-haf/

62 Mae'r Fframwaith Credyd a Chymwysterau ar gyfer Cymru (CQFW) yn disgrifio'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n cwmpasu ystod eang o gymwysterau ar draws pob lefel o'r camau cychwynnol (lefel mynediad) i'r rhai mwyaf datblygedig (lefel 8 e.e. Doethuriaeth). Ei nod yw helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dysgu a'u cyfleoedd dilyniant posibl.

Byddai un cymhwyster cyfun yn fwy cyson â'r arfer addysgu cyfredol ac yn adlewyrchu sut mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn disgrifio'r Maes hwn. Ar hyn o bryd, er gwaethaf bodolaeth TGAU Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd ar wahân, nid yw'r ffordd y mae addysgu'r pynciau hyn yn cael ei amserlennu yn y mwyafrif o ysgolion yn gwahaniaethu rhyngddynt. Nid yw'r Canllawiau Cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn chwaith yn gwahaniaethu rhwng cynnwys sy'n gysylltiedig â mathemateg a chynnwys sy'n gysylltiedig â rhifedd.

Ar hyn o bryd, er bod gan y ddau TGAU sydd ar gael yn y Maes hwn wahanol ddibenion, mae cryn orgyffwrdd yn y cynnwys y maent yn ei gwmpasu. Mae hyn oherwydd bod y cynnwys a asesir yn TGAU Mathemateg-Rhifedd yn is-set o gynnwys Mathemateg TGAU. Mae hyn yn creu rhywfaint o ddyblygu asesu ac yn ychwanegu at y baich asesu cyffredinol ar gyfer dysgwyr ac athrawon.

Ni fyddai angen i TGAU cyfun fod mor fawr â'r ddau TGAU ar wahân. Byddai hyn yn rhoi mwy o amser i ddysgwyr ddilyn pynciau eraill. Byddai TGAU mwy yn y pwnc hwn hefyd yn adlewyrchu maint y TGAU a ddilynir gan ddysgwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Gallai TGAU cyfun ganiatáu asesiad mwy effeithlon. Gellid cyfuno cwestiynau mathemateg gweithdrefnol a thasgau datrys problemau mewn cyd-destun yn yr un asesiad. Gallai hyn helpu athrawon i ganolbwyntio mwy ar ddatblygu hyfedredd dysgwyr yn hytrach na pharatoi ar gyfer dwy set benodol o asesiadau. Bydd cymhwyster sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol a'u cymhwyso i ddatrys problemau mewn cyd-destunau bywyd go iawn yn rhoi gafael gref i ddysgwyr o'r hyfedredd mathemategol sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen y tu hwnt i TGAU.

Mae'r Canllawiau Cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn yn cynnwys ffocws ar fathemateg ariannol. Mae hyn yn ymdrin â phynciau fel cyfraddau llog, dibrisiant, cyfnewid arian tramor, trethiant a chyllidebu. Gallai TGAU cyfun newydd yn y Maes hwn asesu sgiliau a gwybodaeth ariannol dysgwyr gan ddefnyddio cyd-destunau perthnasol a gafaelgar.

Wrth ddatblygu'r cymwysterau, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion, colegau a chyflogwyr, i drosi'r cynnwys a bennir yn y Canllawiau Cwricwlwm i fod yn gymhwyster Mathemateg a Rhifedd cyfun.

Os caiff ei fabwysiadu, gallai'r cynnig hwn gael effaith bosibl ar ddysgwyr ôl-16 sy'n cymryd y TGAU Mathemateg a Rhifedd newydd. Byddai cymhwyster TGAU mwy yn gofyn am fwy o amser addysgu a fyddai'n effeithio ar lwyth gwaith dysgwyr, yn ogystal ag ar staffio a chyllid ar gyfer darparwyr dysgu ôl-16. Bydd angen ystyried yr effaith bosibl ar Raglenni Maes Dysgu hefyd. Byddwn yn ystyried yr effeithiau hyn yn ofalus a'r ffyrdd y gellid eu lliniaru wrth ddatblygu'r cymhwyster newydd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar y dewis o gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16.

2. ***Creu cymhwyster bach newydd y gellir ei gymryd yn ychwanegol at y TGAU i asesu hyfedredd rhifiadol dysgwr, gan ddefnyddio dull asesu ar y sgrin.***

Ar hyn o bryd, nid yw ychydig dros draean y dysgwyr bob blwyddyn yn cyflawni Gradd C neu'n uwch mewn naill ai Mathemateg TGAU neu Fathemateg-Rhifedd TGAU. Mae Gradd C neu uwch yn y Maes hwn yn aml yn ofyniad sylfaenol ar gyfer llawer o swyddi ac mae peidio â'i gyflawni yn cyfyngu ar y llwybrau y gall dysgwyr eu cymryd ôl-16. Gall hefyd adael agwedd negyddol tuag at fathemateg i rai dysgwyr.

Gallai cymhwyster bach ychwanegol mewn hyfedredd rhifiadol roi sylfaen i ddysgwyr nad ydynt yn cyflawni gradd C neu'n uwch mewn TGAU symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth. Gallai hefyd alluogi dysgwyr i ddatblygu eu hyder a rhoi mwy o ymdeimlad cadarnhaol o gyflawniad iddynt yn y Maes hwn wrth iddynt adael addysg orfodol.

Ni fyddai gan y cymhwyster ychwanegol hwn y teitl TGAU, a byddai'n canolbwyntio ar ystod fwy cyfyng o sgiliau a chynnwys na'r TGAU. Byddai'n asesu hyfedredd rhifiadol sylfaenol dysgwyr mewn gwahanol gyd-destunau ac yn dangos bod ganddynt y sgiliau rhifiadol i weithredu'n effeithiol yn y gweithle ac mewn bywyd bob dydd.

Byddai'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i'w gymryd gyda'r TGAU arfaethedig newydd yn y Maes hwn, yn hytrach nag yn lle'r TGAU a gallai dysgwyr astudio ar gyfer y ddau gymhwyster yn gyfochrog. Er mwyn helpu i gefnogi dilyniant, byddai lefel yr anhawster yn gymharol â'r hyn a ddisgwylir ar hyn o bryd ar ffin Gradd C a Gradd D TGAU. Ni fyddai'r cymhwyster yn cael ei raddio ond dim ond nodi a yw dysgwr wedi dangos y lefel hyfedredd disgwyliedig ai peidio.

Gallai ffocws ymarferol ar y sgiliau mathemategol a ddefnyddir mewn bywyd bob dydd, megis cyllid personol neu ystadegau yn y cyfryngau, helpu i bwysleisio perthnasedd y pwnc a'i wneud yn fwy deniadol i ddysgwyr.

Byddai'r cymhwyster hwn yn cael ei asesu gan ddefnyddio dulliau asesu ar sgrîn sydd ar gael ar alw. Gallai hyn ganiatáu i ddysgwyr gynnal asesiad pan fyddant yn barod i wneud hynny. Byddai dysgwyr yn gallu cymryd yr asesiad sawl gwaith a chael eu canlyniadau'n gyflym. Byddem hefyd yn archwilio sut y gallai'r canlyniadau hynny roi gwybodaeth i ddysgwyr am gryfderau a gwendidau cymharol eu perfformiad fel y gallant ganolbwyntio ar sut i wella.

Dangoswyd bod y math hwn o ddull asesu yn gwella ymgysylltiad a chymhelliant dysgwyr[63], hyd yn oed os buont yn aflwyddiannus ar eu hymgais gyntaf. Fel dull gweithredu, mae ganddo hefyd rai elfennau tebyg i'r asesiadau cenedlaethol a gymerwyd ym Mlynyddoedd 2 i 9, a fydd eisoes yn gyfarwydd i ddysgwyr.

Mae gan y cymhwyster hwn botensial clir i helpu i gefnogi datblygiad rhifedd gweithredol dysgwyr. Ond er mwyn helpu dysgwyr i symud ymlaen, byddai angen i gyflogwyr ei werthfawrogi ac i ddysgwyr weld gwerth ynddo. Gwyddom o'n gwaith ar y Dystysgrif Her Sgiliau y gall sefydlu gwerth a chydnabyddiaeth o'r math gymryd amser.

Os mabwysiadwn y cynnig hwn, byddwn yn gweithio'n agos gydag ystod eang o randdeiliaid i ystyried yr union gynnwys a chymhwyso mathemategol y dylai'r math hwn o gymhwyster ei gwmpasu. Bydd hyn yn cynnwys cytuno ar ddiffiniad o'r hyn a olygwn wrth hyfedredd rhifiadol yn y cyd-destun hwn. Byddwn hefyd yn archwilio sut y gellir dylunio'r tasgau asesu i gefnogi datblygiad effeithiol y sgiliau a'r medrusrwydd sylfaenol sydd eu hangen ar ddysgwyr i'w helpu i symud ymlaen.

Bydd datblygu a chyflwyno cymhwyster newydd ac arloesol fel hyn yn gofyn am gryn dreialu, gwerthuso a mireinio. Mae hyn yn golygu na fyddai'r cymhwyster yn ôl pob tebyg yn barod tan ar ôl cyflwyno'r TGAU Mathemateg a Rhifedd newydd arfaethedig, ac mae'n debyg na fydd hyn tan ar ôl Medi 2025.

63 Bae, S., & Kokka, K. (2016). Student Engagement in Assessments: What Students and Teachers Find Engaging. Stanford, CA. Stanford Center for Opportunity Policy in Education a Stanford Center for Assessment, Learning, and Equity

3. Creu cymhwyster Lefel 2 'gwneud-i-Gymru' mewn Mathemateg Ychwanegol.

Mae cymhwyster Mathemateg Ychwanegol CBAC Lefel 2 cyfredol yn boblogaidd gydag ysgolion ac fe'i hystyrir yn cynnig her briodol i'r mathemategwyr mwyaf galluog yn y garfan. Gall hefyd ddarparu paratoad defnyddiol i ddysgwyr sy'n bwriadu symud ymlaen i AS Mathemateg, oherwydd ei fod yn eu cyflwyno i gysyniadau mathemategol mwy datblygedig fel calcwlws. Fe'i cynigir gan CBAC yn Gymraeg a Saesneg, ac mae tua 10% o'r garfan yn ei gymryd[64] .

Yn ein hymgysylltiad ag ysgolion, mae athrawon wedi gwneud sylwadau ffafriol ar gynnwys, maint a strwythur y cymhwyster.

Rydym yn cynnig y dylai'r cymhwyster hwn barhau i fod ar gael yn y dyfodol. Gellid gwneud hyn trwy roi gofynion rheoliadol ar waith fel bod yn rhaid ei gynnig fel cymhwyster 'gwneud-i-Gymru'.

64 Yn haf 2020 dyfarnwyd y cymhwyster i 3,110 o ddysgwyr ledled Cymru.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

1. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster Mathemateg a Rhifedd TGAU cyfun newydd i ddisodli'r ddau TGAU presennol mewn Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd?**
   Byddai'r TGAU newydd oddeutu 1½ TGAU.
2. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster bach newydd y gellir ei gymryd yn ychwanegol at y TGAU i asesu hyfedredd rhifiadol dysgwr, gan ddefnyddio dull asesu ar y sgrîn?**
3. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster Lefel 2 'gwneud-i-Gymru' mewn Mathemateg Ychwanegol?**



6. Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Canllawiau Cwricwlwm[65]

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg ('Maes') yn tynnu ar ddisgyblaethau bioleg, cemeg, gwyddoniaeth gyfrifiadurol, dylunio a thechnoleg, a ffiseg.

Y chwe Datganiad o'r Hyn Sy'n Bwysig yn y Maes hwn[66] yw:

1. *Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.*
2. *Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.*
3. *Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.*
4. *Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.*
5. *Mae grymoedd ac egni yn gosod sylfaen i ddeall ein bydysawd.*
6. *Mae cyfrifiaduraeth y gosod sail i'n byd digidol.*

Darpariaeth Gyfredol

Ar hyn o bryd y cymwysterau TGAU 'gwneud-i-Gymru' sydd ar gael i ysgolion yn y Maes hwn yw:

Technoleg

- Cyfrifiadureg
- Dylunio a Thechnoleg
- Technoleg Ddigidol[67]
- Amgylchedd Adeiledig[68]

Gwyddoniaeth

- Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Sengl)
- Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Ddwbl)
- Gwyddoniaeth (Gradd Ddwbl)
- Bioleg
- Cemeg
- Ffiseg

Ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU 'gwneud-i-Gymru' hyn, gall ysgolion hefyd ddewis o ystod o gymwysterau eraill sy'n gysylltiedig â'r Maes hwn. Dim ond yn Saesneg y mae rhai o'r cymwysterau eraill hyn ar gael, ac mae nifer y dysgwyr sy'n eu cymryd yn gyffredinol yn llawer is nag ar gyfer y prif TGAU yn y Maes hwn.

65 Mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn gosod mewn mwy o fanylder yr hyn y dylai Cwricwlwm Ysgol ei gynnwys mewn perthynas â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, elfennau gorfodol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Am esboniad pellach gweler tud. 6

66 Yma, rydym wedi rhestru penawdau'r Datganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig ym mhob Maes. Disgrifir pob datganiad yn llawnach yn y Canllawiau Cwricwlwm.

67 TGAU newydd yn cychwyn ym mis Medi 2021, a gyflwynwyd yn dilyn ein hadolygiad o gymwysterau yn y sector Technoleg Ddigidol: Cymwysterau Cymru (2018) *Digidol i'r Dyfodol - Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu*. Ar gael oddi wrth: https://www.qualificationswales.org/media/3965/itc-review-2018-w.pdf

68 TGAU newydd yn cychwyn ym mis Medi 2021, a gyflwynwyd yn dilyn ein hadolygiad o gymwysterau yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig: Cymwysterau Cymru *Adeiladu'r Dyfodol: Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.* Ar gael oddi wrth: https://www.qualificationswales.org/media/3177/adeiladu-r-dyfodol.pdf

Fersiynau o gymwysterau TGAU sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Lloegr[69] ar gael yn:

Seryddiaeth	Peirianneg	Seicoleg
Electroneg	Daeareg	

Mae cymwysterau heblaw TGAU ar gael yn y pynciau a ganlyn:

Amaethyddiaeth	Peirianneg	Cerbydau Modur
Dylunio a Thechnoleg	Garddwriaeth	Gwyddoniaeth
Electroneg	Technoleg Gwybodaeth	

Mae rhai o'r cymwysterau uchod ar gael yn ddwyieithog ac eraill ar gael yn Saesneg yn unig.

Cipolwg ar gynigion

Er mwyn llunio'r ystod o gymwysterau yn y Maes hwn, rydym yn cynnig:

1. Adolygu a diwygio TGAU mewn Cyfrifiadureg, yr Amgylchedd Adeiledig, Dylunio a Thechnoleg, a Thechnoleg Ddigidol.
2. Creu TGAU Peirianneg a Gweithgynhyrchu newydd.
3. Creu cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd i ddisodli'r gyfres bresennol o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth. Mae'r cymhwyster hwn yn debygol o fod tua maint dau TGAU.
4. Creu cyfres o gymwysterau bach gwyddoniaeth y gellir eu cymryd yn ychwanegol at y cymhwyster Gwyddoniaeth TGAU newydd arfaethedig. Mae'r unedau hyn yn debygol o fod yn gyfwerth o ran maint â naill ai un rhan o dair neu ddwy ran o dair cymhwyster TGAU.

Byddai cymwysterau mewn pynciau sy'n gysylltiedig â Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn parhau i fod ar gael i ysgolion a dysgwyr, ar yr amod eu bod yn cwrdd â'n hegwyddorion arweiniol ac nad ydynt yn dyblygu'r prif gymwysterau 'gwneud-i-Gymru' yn y Maes hwn.

Y meddwl y tu ôl i'r cynigion

1. Adolygu a diwygio TGAU mewn Cyfrifiadureg, yr Amgylchedd Adeiledig, Dylunio a Thechnoleg, a Thechnoleg Ddigidol.

Mae'r cymwysterau a gwmpesir gan y cynnig hwn yn cefnogi ac yn annog dysgwyr i ddatblygu eu diddordeb mewn amrywiaeth o feysydd pwnc a chefnogi dilyniant i ddysgu pellach.

Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes achos dros greu cymhwyster technoleg cyfun sy'n rhychwantu ystod o wahanol dechnolegau a chymwysiadau. Mae hyn oherwydd eu bod yn bynciau ar wahân sydd â chynnwys gwahanol i'w gilydd a bod angen cymhwyso'r cynnwys mewn cyd-destunau ymarferol. Felly nid ydynt yn amlwg yn cynnig eu hunain ar gyfer cymhwyster cyfun. Byddai unrhyw gymhwyster cyfun yn codi'r perygl o gynnig dealltwriaeth arwynebol yn unig o bob maes pwnc ar gyfer dysgwyr. Yn ei dro ni fyddai hyn o bosib yn eu paratoi'n ddigonol ar gyfer astudiaeth bellach ôl-16 yn y pynciau hyn.

69 Ers 2015 mae rhai gwahaniaethau rhwng TGAU a ddyluniwyd ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae TGAU Cymru yn parhau i gael eu graddio A * -G, mae TGAU ar gyfer Lloegr bellach wedi'u graddio 9-1, ac yng Ngogledd Iwerddon mae gradd C * newydd wedi'i chyflwyno. Mae pob TGAU yn parhau i fod yn gymharol debyg o ran maint a lefel y galw.

Yn ogystal, o ystyried y gwahaniaethau amlwg rhwng pob pwnc, mae perygl y byddai diffyg cydlyniaeth o fewn unrhyw gymhwyster cyfun gan nad oes digon o elfennau cyffredin rhwng y pynciau. Mae cynnal cymwysterau ar wahân mewn gwahanol bynciau yn cynnig dewis i ysgolion a dysgwyr astudio gwahanol agweddau o fewn y Maes yn fwy manwl.

Byddai'r cynnig yn golygu ein bod yn adolygu cynnwys ac asesiad y TGAU presennol yn y pynciau hyn i ystyried unrhyw newidiadau a allai fod yn ofynnol. Yna byddem yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig.

Mae cymwysterau Amgylchedd Adeiledig TGAU a Thechnoleg Ddigidol TGAU yn newydd sbon, ac yn ddiweddar rydym wedi ymgynghori ar eu cynnwys a'u hasesiad. Mae cefnogaeth i gael TGAU yn y pynciau hyn, ac mae eu dyluniad yn edrych i'r dyfodol. Mae elfennau o fewn y ddau gymhwyster yn hyblyg, a gall ysgolion fod yn eu llunio, ac mae'r ddau yn cynnwys cymysgedd o ddulliau asesu, gan gynnwys asesu digidol ac ar sgrîn. Mae'n bosibl felly na fyddai adolygiad o'r cymwysterau hyn ar hyn o bryd yn nodi unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'w cynnwys a'u hasesiad. Os nodir unrhyw newidiadau, byddwn yn ystyried a oes eu hangen ar unwaith neu a ellid eu cyflwyno yn nes ymlaen. Gallai hyn olygu efallai na fydd fersiynau diwygiedig o'r cymwysterau hyn ar gael i'w haddysgu tan ar ôl Medi 2025.

2. Creu TGAU Peirianneg a Gweithgynhyrchu newydd.

Daw'r cynnig hwn o'n hadolygiad diweddar o gymwysterau sy'n gysylltiedig â'r sector cyflogaeth peirianneg a gweithgynhyrchu uwch[70] .

Byddai'r cymhwyster newydd hwn yn cyflwyno dysgwyr i'r cyfleoedd cyfoethog ac amrywiol ar gyfer astudio ymhellach a gweithio ym myd peirianneg a gweithgynhyrchu. Byddai'r cynnwys yn canolbwyntio'n gryf ar asesu sgiliau ymarferol a chymhwyso gwybodaeth i fywyd go iawn, yn ogystal â chanolbwyntio ar gynnwys damcaniaethol.

Cyfeirir at beirianneg yn benodol yn yr ail Ddatganiad o'r Hyn Sy'n Bwysig ar gyfer y Maes hwn ac felly mae'n bwnc sy'n cyd-fynd yn agos â'r cwricwlwm newydd. Yn ogystal, mae canfyddiadau ein hadolygiad sector yn awgrymu y gallai peirianneg gynnig cyfle gwerthfawr i astudio ac ymgysylltu â sawl agwedd wahanol ar Gwricwlwm i Gymru, a helpu dysgwyr i wireddu ei Bedwar Diben.

Os mabwysiadwn y cynnig hwn, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ac ymgynghori ar gynigion manwl ar gyfer cynnwys ac asesu'r cymhwyster newydd hwn. Byddwn hefyd yn ymgynghori ynghylch pryd y dylid cyflwyno'r cymhwyster newydd.

Ar hyn o bryd mae yna gymwysterau eraill y gall dysgwyr eu cymryd mewn pynciau sy'n ymwneud â pheirianneg a gweithgynhyrchu; mae'r TGAU newydd yn debygol o ddisodli rhai o'r rhain. Byddwn yn defnyddio'r ymgynghoriad i nodi'r cymwysterau sy'n debygol o gael eu disodli.

O ystyried nad yw Peirianneg yn gymhwyster TGAU 'gwneud-i-Gymru' ar hyn o bryd, os derbynnir y cynnig hwn mae'n bosibl y byddai'n rhaid cyflwyno'r cymhwyster newydd yn hwyrach na 2025. Os yw hyn yn wir, byddai'r ddarpariaeth amgen bresennol mewn Peirianneg yn parhau i fod ar gael nes bod y cymhwyster newydd yn cael ei gyflwyno.

70 Cymwysterau Cymru (2020) *Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni.* Ar gael oddi wrth: https://www.cymwysteraucymru.org/media/6721/pwysigrwydd-peirianneg-hydref-2020.pdf

3. ***Creu cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd i ddisodli'r gyfres bresennol o TGAU gwyddoniaeth. Mae'r cymhwyster hwn yn debygol o fod tua maint dau TGAU .***

Mae angen ystyried y cynnig hwn mewn perthynas agos gyda'r cynnig isod, sef bod cyfres o gymwysterau bach gwyddoniaeth yn cael eu creu ar gyfer eu cymryd yn ychwanegol at TGAU gwyddoniaeth newydd. Byddai'r cymwysterau bach hyn yn ategu'r TGAU a gynigir yn yr adran hon ac yn darparu cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr sydd am arbenigo mewn gwyddoniaeth.

Ar hyn o bryd mae sawl TGAU gwyddoniaeth gwahanol ar gael i ysgolion. Mae pob un wedi'i gynllunio i asesu cynnwys sydd yr un mor heriol, ond yn gwahaniaethu o ran faint o gynnwys y maent yn ei gwmpasu, a sut mae'r cynnwys hwnnw'n cael ei strwythuro a'i asesu. Mae rhai wedi'u cynllunio i gefnogi dilyniant i Wyddoniaeth Safon Uwch, ond nid felly rai eraill. Nid yw pob ysgol yn cynnig y gyfres TGAU gwyddoniaeth yn gyfan, ac nid yw pob dysgwr yn cael yr un faint o ddewis ynglŷn â pha wyddoniaeth TGAU y maent yn ei hastudio.

Rydym yn cynnig disodli'r gyfres wyddoniaeth TGAU gyfredol (gan gynnwys y TGAU ar wahân mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg) gydag un cymhwyster TGAU. Byddai hyn yn cynnig dull cyffredin o ddysgu i bob dysgwr. Byddem yn dylunio'r cymhwyster newydd i:

- fod yn hygyrch i'r un ystod o ddysgwyr â chymwysterau TGAU gwyddoniaeth presennol
- gefnogi dilyniant i Safon Uwch a chymwysterau cyfatebol mewn pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM)
- fod tua'r un maint â dau TGAU.

Os mabwysiadwn y cynnig hwn ar gyfer cymhwyster gwyddoniaeth TGAU cyffredin, byddwn yn gweithio'n agos gyda llawer o wahanol randdeiliaid i ddatblygu cynigion ar gyfer dyluniad manwl y cymhwyster newydd. Byddai'r rhain yn cynnwys cynigion ar gyfer y cynnwys y dylai ei gwmpasu, gan gynnwys faint o gynnwys y dylai ei gynnwys a sut y dylid ei drefnu. Gan adlewyrchu'r Canllawiau Cwricwlwm, byddai'r cymhwyster yn dal i gynnwys elfennau a dynnwyd o ddisgyblaethau Bioleg, Cemeg a Ffiseg.

Byddem yn ystyried pa ddulliau asesu sydd fwyaf priodol ar gyfer y cymhwyster newydd, gan gynnwys y ffordd orau o asesu sgiliau ymholi gwyddonol a sgiliau labordy ymarferol. Byddai ein cynigion yn cael eu llywio gan y ffordd y gallai dyluniad y cymhwyster gefnogi addysgu da a phrofiadau dysgu cadarnhaol sy'n gysylltiedig â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru.

Byddai angen i'r cymhwyster newydd fod yn hygyrch i ystod eang o ddysgwyr tra hefyd yn cynnig lefel addas o her a dilyniant iddynt i gyd. Wrth ddiwygio'r cymwysterau gwyddoniaeth hyn, byddem yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ystyried sut y dylai'r sgiliau a'r wybodaeth gysyniadol a ddisgrifir yn y Canllawiau Cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn gael eu hadlewyrchu yn y cymhwyster. Bydd cytuno ar ba gynnwys a ddylai fod yn orfodol a pha gynnwys a allai fod yn ddewisol yn gofyn am rai penderfyniadau anodd. Bydd gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn allweddol i gael y cydbwysedd yn iawn yn y dyluniad arfaethedig ac i sicrhau bod y ffocws ar gefnogi profiadau cadarnhaol o ran addysgu a dysgu.

Disgwyliwn y byddai'r cymhwyster newydd oddeutu maint dau TGAU, yn debyg i'r radd ddwbl cyfun cyfredol. Byddai union faint a chwmpas y cymhwyster newydd arfaethedig yn cael ei bennu trwy ymgynghori pellach.

Wrth ddatblygu gofynion ar gyfer y cymhwyster newydd, byddem am weld mwy o bwyslais ar gyd-destunau a chymwyso gwyddoniaeth yn ogystal ag adeiladu ar rinweddau cymharol yr holl gymwysterau gwyddoniaeth TGAU cyfredol.

Gallai cael un cymhwyster gwyddoniaeth cyffredin ar draws ysgolion atgyfnerthu'r cysylltiadau ar draws y Maes cyfan. Gallai hefyd helpu i bwysleisio pa mor berthnasol yw syniadau a ffordd o feddwl gwyddonol i'r byd o'n cwmpas ac i ddyfodol dysgwyr.

Gallai un llwybr trwy wyddoniaeth yn 14-16 gynorthwyo mwy o ddysgwyr i symud ymlaen i wyddoniaeth a meysydd astudio a gwaith STEM[71]. Mae'n dileu'r angen i benderfyniadau gael eu gwneud yn 14 a all weithiau gulhau dewisiadau dysgwyr yn y dyfodol. Byddai hefyd yn rhoi profiad dilys, perthnasol a gafaelgar iddynt o wyddoniaeth, gan eu harfogi â gwybodaeth a sgiliau i lwyddo a symud ymlaen ar ôl 16, waeth pa faes bynnag y maent yn dewis arbenigo ynddo yn nes ymlaen.

Byddai'r cynnig hwn yn golygu na fyddai TGAU ar wahân mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg ar gael mwyach. Yn wahanol i rai canfyddiadau, nid yw prifysgolion yn ffafrio dysgwyr sydd wedi cymryd gwyddorau ar wahân yn TGAU o'u cymharu â'r rhai sydd wedi ennill gradd ddwbl. O ymgysylltu â phrifysgolion, gwelir ffafriaeth glir i ddysgwyr sydd ag ystod o ddysgu a phrofiadau gwahanol. Mae hyn yn wir am gyrsiau STEM hynod ddetholus yn ogystal ag am cyrsiau eraill. Trwy gael gwared ar y camargraff mai dim ond ar gyfer y rhai sydd wedi astudio TGAU gwyddoniaeth ar wahân y mae dilyniant i rai cyrsiau, mae dull cyffredin o ymdrin â gwyddoniaeth yn cynyddu ecwiti ym mhrofiadau dysgwyr, a gallai helpu i ehangu ymwneud â STEM ar ôl 16.

Mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid hyd yn hyn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o ysgolion yn ystyried gwyddoniaeth yn rhan ganolog o'r cwricwlwm ac felly'n penodi cryn dipyn o amser addysgu iddo. Byddent yn croesawu cymhwyster sy'n cynnig dull cyffredin o ymdrin â'r pynciau ar draws ysgolion. Mynegodd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y prif gymdeithasau dysgedig gwyddonol, eu bod hwy hefyd yn ffafrio dull mwy cyffredin o ymdrin â'r gwyddorau ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed.[72]

Mae symleiddio'r ystod o TGAU gwyddoniaeth sydd ar gael yn caniatáu i ysgolion a dysgwyr lunio cyfuniadau o gymwysterau sy'n adlewyrchu ehangder llawn y Canllawiau Cwricwlwm. Byddai gan y rhai sydd am ganolbwyntio ar Feysydd eraill fwy o hyblygrwydd i wneud hynny, tra byddai dysgwyr sydd am ganolbwyntio mwy ar y Maes hwn yn gallu dewis o ystod o gymwysterau gwyddoniaeth ychwanegol; rydym yn trafod hyn ymhellach yn y cynnig nesaf.

2. ***Creu cyfres o gymwysterau bach gwyddoniaeth y gellir eu cymryd yn ychwanegol at y cymhwyster Gwyddoniaeth TGAU newydd arfaethedig. Mae'r unedau hyn yn debygol o fod yn gyfwerth o ran maint â naill ai un rhan o dair neu ddwy ran o dair o TGAU.***

Mae hyn yn adeiladu ar y cynnig blaenorol i greu cymhwyster Gwyddoniaeth TGAU newydd a fyddai'n disodli'r gyfres bresennol o TGAU gwyddoniaeth. Gyda'i gilydd, gallai'r ddau gynnig hyn gynnig cydbwysedd rhwng ecwiti a dewis i ysgolion a dysgwyr. Byddai'r TGAU newydd yn darparu dull cyffredin o fynd i'r afael â hanfodion gwyddoniaeth, tra

71 Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg

72 SCORE Science Community Representing Education, (2015) *The Sciences at Key Stage 4: time for a re-think?* Ar gael oddi wrth: https://www.rsb.org.uk/images/score_sciences_at_ks4_final.pdf

byddai'r set o gymwysterau atodol yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion deilwra eu cwricwlwm ac yn cynnig dewis i'w dysgwyr archwilio'r gwyddorau ymhellach ac mewn gwahanol ffyrdd. Gallai'r cymwysterau atodol hyn alluogi dysgwyr i gymhwyso cysyniadau a sgiliau a ddatblygwyd yn y cymhwyster TGAU i ystod wahanol o gyd-destunau perthnasol, gafaelgar a chyfoes.

Er mwyn cynrychioli cwrs dysgu ystyrlon a hydrin, rhagwelwn y byddai'r cymwysterau newydd hyn yn cyfateb yn fras i naill ai un rhan o dair neu ddwy ran o dair TGAU. Byddem hefyd yn archwilio'r posibilrwydd y gallai cyfuniad o'r unedau dewisol hyn gael eu crynhoi gyda'i gilydd i greu gwobr TGAU gwyddoniaeth ychwanegol i ddysgwyr. Byddai hyn yn galluogi dysgwyr sydd â diddordeb cryf yn y gwyddorau naturiol i gael yr hyn sy'n cyfateb i dri TGAU mewn pynciau gwyddoniaeth.

Byddai'r gyfres hon o gymwysterau atodol yn rhoi dewis i ddysgwyr ymgysylltu ag agweddau ehangach ar wyddoniaeth ac archwilio cysylltiadau â rhannau eraill o'u Cwricwlwm Ysgol[73]. Ar hyn o bryd, mae mwyafrif y dysgwyr yn cymryd naill ai cyfwerth â dau neu dri TGAU gwyddoniaeth. Byddai'r cynnig hwn yn rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddysgwyr benderfynu faint maen nhw am arbenigo mewn gwyddoniaeth ynghyd â'r agweddau ar wyddoniaeth yr hoffent ganolbwyntio arnynt.

Fel cymwysterau atodol, byddent yn cael eu cynllunio i adeiladu ar y cynnwys a gwmpesir yn y cymhwyster Gwyddoniaeth TGAU newydd arfaethedig, gan beidio â'i ddyblygu. Gallai'r dull hwn helpu i gytuno ar y cynnwys hanfodol y dylid ei gynnwys yn y cymhwyster Gwyddoniaeth TGAU i gefnogi dilyniant. Gellid teilwra'r cymwysterau hyn hefyd i anghenion ysgol neu ddysgwr, er enghraifft trwy gynnwys dulliau asesu mwy hyblyg na'r prif gymhwyster TGAU.

Ni fyddai'r cymwysterau hyn wedi'u cynllunio i fod yn hanfodol i ddysgwyr sy'n ceisio symud ymlaen yn y gwyddorau, ond gallent gynnig cyfle i ddysgwyr ymgysylltu ag agweddau ehangach ar wyddoniaeth, gwneud cysylltiadau â thechnoleg a rhannau eraill o'u Cwricwlwm Ysgol, ac archwilio'r gwahanol ddewisiadau a llwybrau sy'n agored iddynt.

Wrth fwrw ymlaen â'r cynnig hwn byddem yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ystyried y gwahanol bosibiliadau y gallai cyfres o gymwysterau atodol eu cynnwys. Er enghraifft, gallent:

- asesu ffordd o feddwl ac arbrofi gwyddonol, a darparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwaith ymarferol estynedig
- edrych ar wahanol gymwysiadau gwyddoniaeth, fel:
    - gwyddoniaeth mewn diwydiant
    - gwyddoniaeth ac amaethyddiaeth ar y tir
    - gwyddoniaeth mewn cymdeithas a'r cyfryngau
    - gwyddoniaeth yr amgylchedd a newid hinsawdd
    - gwyddoniaeth mewn meddygaeth a bioleg ddynol

73 Pan ddaw Cwricwlwm i Gymru i rym bydd gofyn i bob ysgol greu ei Chwricwlwm Ysgol ei hun gan ddilyn Canllawiau Cwricwlwm Llywodraeth Cymru. Gweler tud. 6 am fwy o fanylion.

- cymryd agwedd thematig ac integredig at bynciau fel:
    - gofod
    - gwyddoniaeth ddaearegol
    - hanes natur

Yn gytbwys yn erbyn y posibiliadau hyn fydd yr angen i sicrhau y byddai unrhyw gyfres o gymwysterau ychwanegol y cytunwyd arni yn darparu cyfres gydlynol o ddewisiadau i ddysgwyr, yn hylaw i ysgolion eu cyflwyno, ac yn hyfyw i gyrff dyfarnu eu cynnig. Byddem yn ystyried yr heriau hyn wrth ddatblygu ac ymgynghori ar gynigion ar gyfer y cymwysterau newydd.

Byddem eisiau i gynifer o gymwysterau gwyddoniaeth ychwanegol â phosibl fod ar gael yn barod ar gyfer addysgu o fis Medi 2025, ochr yn ochr â'r TGAU gwyddoniaeth arfaethedig newydd. Yna gellid ychwanegu cymwysterau pellach i'r gyfres dros amser.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

1. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i adolygu a diwygio TGAU mewn Cyfrifiadureg, yr Amgylchedd Adeiledig, Dylunio a Thechnoleg, a Thechnoleg Ddigidol?**
2. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i creu TGAU Peirianneg a Gweithgynhyrchu newydd?**
3. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster Gwyddoniaeth TGAU newydd i ddisodli'r gyfres bresennol o TGAU gwyddoniaeth?** Mae'r cymhwyster hwn yn debygol o fod tua maint dau TGAU.
4. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cyfres o gymwysterau gwyddoniaeth bach y gellir eu cymryd yn ychwanegol at y cymhwyster Gwyddoniaeth TGAU newydd arfaethedig?** Mae'r unedau hyn yn debygol o fod yn gyfwerth o ran maint â naill ai un rhan o dair neu ddwy ran o dair o TGAU.



7. Sgiliau Cyfannol

Canllawiau Cwricwlwm[74]

Mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn nodi bod sgiliau cyfannol yn sail i'r Pedwar Diben ac y dylid datblygu'r sgiliau hyn o fewn ystod eang o ddysgu ac addysgu.

Y pedwar sgil cyfannol yw:

- *Creadigrwydd ac Arloesi*
- *Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau*
- *Effeithiolrwydd Personol*
- *Cynllunio a Threfnu*

Y ddarpariaeth gyfredol

Mae'r sgiliau cyfannol a ddisgrifir yn y Canllawiau Cwricwlwm yn adlewyrchu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu trwy'r cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/ Sylfaenol. ('THS')

Dyluniwyd y cymhwyster hwn i fod yn debyg o ran maint i gymhwyster TGAU, ond mae'r ffordd y mae'n cael ei asesu yn wahanol. Fe'i hasesir trwy gyfres o heriau a phrosiect unigol a gwblheir gan y dysgwyr yn ystod y cwrs. Mae'n cynnig llawer o ddewis i ysgolion a dysgwyr ynghylch yr elfennau maen nhw'n dewis canolbwyntio arnynt. Nid yw'n cynnwys unrhyw asesiad ar sail arholiad.

Mae'r cymhwyster yn rhan o fframwaith Bagloriaeth Cymru, sy'n cynnwys sawl cymhwyster gwahanol. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'r cymhwyster yn ffitio i'r Fagloriaeth.

Diagram 1: Dadansoddiad o'r Fframwaith Genedlaethol / Sylfaen Bagloriaeth Cymru



74 Mae'r Canllawiau Cwricwlwm yn gosod mewn mwy o fanylder yr hyn y dylai Cwricwlwm Ysgol ei gynnwys mewn perthynas â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, elfennau gorfodol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Am esboniad pellach gweler tud. 6

Mae'r mwyafrif helaeth o ddysgwyr 14 i 16 oed yng Nghymru yn cymryd y THS a Bagloriaeth Cymru.

Yn 2018 cyhoeddom adolygiad o Fagloriaeth Cymru a'r THS[75] . Canfu'r adolygiad fod y THS yn gymhwyster gwerth chweil, gan roi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ennill sgiliau bywyd go iawn a datblygu eu diddordebau trwy ddewis meysydd astudio sy'n berthnasol iddynt. Nododd hefyd feysydd y gellid eu gwella i wneud y cymhwyster yn fwy hylaw trwy leihau cymhlethdod a dyblygu asesiad.

Y Cynnig:

Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r cymhwyster THS i'w wneud yn symlach ac yn fwy hylaw, gan ganolbwyntio ar asesu Sgiliau Cyfannol:

- **Creadigrwydd ac Arloesi**
- **Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau**
- **Effeithiolrwydd Personol**
- **Cynllunio a Threfnu**

Y meddwl y tu ôl i'r cynnig

Yn dilyn ymgynghoriad diweddar, byddwn yn cadarnhau'r gofynion dylunio ar gyfer cymhwyster Uwch THS newydd cyn bo hir.

Rydym nawr yn ymgynghori ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â gwaith tebyg i ddiwygio'r THS ar lefel Genedlaethol / Sylfaen (Lefelau 1 a 2 o'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau i Gymru[76]). Dyma'r cymwysterau THS a ddilynir ar hyn o bryd gan ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed ochr yn ochr â'u TGAU.

Byddai mabwysiadu'r cynnig hwn yn golygu ein bod yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar ddyluniad newydd ar gyfer sut y dylid cyflwyno ac asesu cymwysterau THS. Yn y modd hwn, gallem fynd i'r afael â'r argymhellion o adolygiadau blaenorol.

Byddem yn disgwyl i'r dyluniad newydd barhau i gynnig llawer o hyblygrwydd i ddysgwyr ddewis pynciau sy'n caniatáu iddynt ddatblygu a dangos eu sgiliau cyfannol. Byddai hyn yn caniatáu inni archwilio sut y gallai dyluniad y cymhwyster helpu ysgolion i gyflawni eu Cwricwlwm Ysgol[77], er enghraifft trwy gynnig ffordd hyblyg iddynt o strwythuro dysgu ar draws gwahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad.

Os mabwysiadwn y cynnig hwn, byddwn yn dal i ddisgwyl i gymwysterau eraill 'gwneud-i-Gymru' gael eu cynllunio i annog datblygiad sgiliau cyfannol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y Canllawiau Cwricwlwm yn awgrymu y dylid ymgorffori addysgu a dysgu sgiliau cyfannol yn y modd y mae ysgol yn cyflwyno pob Maes o'i Chwricwlwm Ysgol.

75 Wavehill Ltd, (2018). *'Adolygiad o fodel dylunio ac asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau, a'i le o fewn Bagloriaeth Cymru'*. Ar gael oddi wrth: https://www.qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/welsh-bacc-report-2018/

76 Mae'r Fframwaith Credyd a Chymwysterau ar gyfer Cymru yn disgrifio'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n cwmpasu ystod eang o gymwysterau ar draws pob lefel o'r camau cychwynnol (Lefel Mynediad) i'r rhai mwyaf datblygedig (Lefel 8 e.e. Doethuriaeth). Ei nod yw helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dysgu a'u cyfleoedd dilyniant posibl.

77 Pan ddaw Cwricwlwm i Gymru i rym bydd gofyn i bob ysgol greu ei Chwricwlwm Ysgol ei hun gan ddilyn Canllawiau Cwricwlwm Llywodraeth Cymru. Gweler tud. 6 am fwy o fanylion.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

1. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddiwygio'r cymhwyster THS i'w wneud yn symlach ac yn fwy hylaw, gyda ffocws ar asesu'r Sgiliau Cyfannol:**

    - **Creadigrwydd ac Arloesi**
    - **Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau**
    - **Effeithiolrwydd Personol**
    - **Cynllunio a Threfnu**



Cwestiynau asesu effaith

Wrth gyflwyno'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn rydym wedi ystyried yr effeithiau allweddol y gallai pob cynnig eu cael, gan gynnwys ar y Gymraeg ac o safbwynt deddfwriaeth cydraddoldeb.

Mae'r arolwg ar-lein yn gofyn y cwestiynau canlynol am effaith bosibl y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn.

1. **Mewn perthynas â'r effeithiau yr ydym wedi'u nodi, a oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i leihau effeithiau negyddol posibl?**

2. **A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig nad ydym wedi'u nodi?**

3. **A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nad ydym wedi'u nodi?**

4. **A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol mewn perthynas â thrin y Gymraeg heb fod yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg nad ydym wedi'i nodi?**

5. **A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill nad ydym wedi'u nodi?**

Qualified for the future

Cymwys ar gyfer y dyfodol

CYMWYSTERAU CYMRU QUALIFICATIONS WALES